# ECO'R WYDDFA

RHIF 286 Chwefror 2002 PRIS 40c


## Brynteg – y 'Parc Gorau ym Mhrydain'

**Maes Cartrefi Gwyliau Brynteg, Llanrug ger Caernarfon yw'r gorau ym Mhrydain yn ôl beirniaid y gystadleuaeth enwog a noddir gan Calor Gas gyda chefnogaeth Bwrdd Croeso Cymru.**

Rhoddwyd y wobr yn dilyn ymweliad gan arolygwyr annibynnol a fu'n edrych ar ansawdd y cyfleusterau, y gwasanaeth i breswylwyr, hyfforddiant staff ac ymrwymiad i'r gymuned leol.

Cyflwynwyd tlws hardd i James D. McAllister, rheolwr cyffredinol Brynteg, mewn seremoni arbennig yng nghanolfan foethus Ty'r RAC yn Llundain.

Gweddnewidiodd James a'i dîm y llecyn o safle gweddol sylfaenol mewn ardal hardd i barc pum seren gyda phob cyfleuster a ddymunir gan berchnogion cartrefi gwyliau. Gwariodd Grwp Talacre Beach, sef perchnogion Brynteg, dros £3.5 miliwn yn y broses.

Bu Cyngor Gwynedd a Chyngor Cymuned Llanrug yn gefnogol iawn i'r datblygiadau, lle crewyd dros 42 o swyddi. Mae'r cwmni'n defnyddio cwmnïau lleol yn helaeth, a gwnaed defnydd effeithiol o nodweddion lleol megis carreg a llechen wrth wella'r adeiladau a'r tirwedd. Mae cynnyrch lleol hefyd ar werth yn siop y safle.

Un o hanfodion Brynteg yw'r gallu i fwynhau byd natur heb darfu ar fywyd gwyllt. Yn ddiweddar enillodd y parc Wobr Aur David Bellamy am ei waith amgylcheddol.

I gyrraedd y safon angenrheidiol, gwahoddwyd ecolegwyr o Brifysgol Cymru Bangor yn ogystal â David Bellamy ei hun i gynghori ynghylch gwarchod y goedwig a'r llyn pysgota tra'n adeiladu rhodfeydd drwy'r coed, llwybrau natur a llwybr 'styllod hyd lan y llyn.

Cynhaliwyd parti i ddathlu'r gamp o ennill y wobr 'Gorau ym Mhrydain' a derbyniodd pob aelod o staff dystysgrif arbennig i goffau'r llwyddiant.

# DIRGELWCH CEFN DRUM



*Y ddwy ffos sy'n creithio wyneb y tir a rhai o'r tywyrch wedi eu taflu o ddeutu.*

**Er gwaethaf yr adroddiadau yn y Wasg leol ac yn *Y Cymro* ddiwedd Ionawr am y seren wib dybiedig sydd wedi taro rhai o lethrau'r Wyddfa, nid 'darganfyddiad' diweddar mohono. Mae nifer o drigolion o fro'r 'Eco' yn ymwybodol o'r hyn sydd wedi digwydd ar ysgwydd Cefn Drum, y gefnen o dir sy'n ymestyn o'r Foel Goch ac yn gwahanu Bwlch Maesgwm oddi wrth Gwm Dwythwch. Daeth i sylw rhai mor gynnar â dechrau Rhagfyr y llynedd, a bu un o ohebwyr yr 'Eco' yn ymweld â'r safle ar y dydd Sadwrn cyn y Nadolig. Dyma adroddiad a lluniau am y 'dirgelwch' ar Gefn Drum.**

Roedd y gwynt yn chwipio'n rhewllyd wrth ddringo o gysgod Maesgwm i dirwedd agored Cefn Drum. Croesi'r gefnen a'r pantiau mawnoglyd yn crensian dan draed. Gwyddwn fod y 'dirgelwch' – fe'i galwaf yn hynny am ddiffyg disgrifiad arall ohono – yn agos i'r ffens sy'n plygu'n erbyn y gwynt ar ochr Cwm Dwythwch o'r gefnen. Ac o ddilyn y ffens i fyny'r llethrau i gyfeiriad y Foel Goch, doedd dim posibl ei fethu.

Creithiwyd wyneb y ddaear yn go arw. Roedd craig fawr sy'n brigo i'r wyneb yma wedi ei hollti a'i malu, wyneb y ddaear wedi ei chrafu, a hynny mor fileinig nes ffurfio dwy ffos, a'r rheini wedi llenwi â dwr a oedd erbyn hyn wedi rhewi'n gorn. O gwmpas y safle roedd naddion cerrig, tywyrch anferth wedi eu taflu i'r naill ochr a'r llall, a chlympiau o frwyn wedi eu gwasgaru fel conffeti mewn hanner cylch. A dyna'r 'dirgelwch'. Beth allai fod wedi digwydd i achosi'r fath lanastr?

Cyfeiriwyd at y posibilrwydd mai seren wib oedd wedi taro'r ddaear yma. Mae'n wir fod cawodydd o sêr gwib wedi eu gweld yn disgyn i Fôr Iwerddon rhyw bythefnos cyn y 'Dolig, A yw'n bosib fod un o'r rhain wedi 'crwydro' oddi wrth y lleill a tharo ysgwydd Cefn Drum? Mae'n anhebygol, oherwydd i greu'r fath ddifrod ar ochr y mynydd byddai'n rhaid wrth rywbeth o gryn faintioli fod wedi disgyn yno – a byddai unrhyw beth o'r maint hwnnw wedi ei weld yn glir yn yr awyr, a byddid wedi clywed ei sŵn.

Awgrymwyd hefyd mai taranfollt oedd yn gyfrifol, ond unwaith eto, byddai'r sŵn wedi ei glywed a byddai olion llosgi i'w gweld ar dyfiant y safle. Mae'n wir fod mymryn o dduwch yma ac acw ar y safle, ond gallai hwnnw fod yn lliw'r mawnbridd dan yr wyneb.

Tybed, felly, ai llaw Dyn fu'n gyfrifol? Ond i ba bwrpas? Mae'r ffosydd yn rhedeg yn groes i'r llethr, ac yn stopio'n union wrth fôn y ffens. Mae bron fel pe bai beth bynnag a fu'n gyfrifol am y creithio wedi parchu'r llinell derfyn! Mae rhai o'r tywyrch sydd wedi eu taflu o'r ffosydd gryn ugain troedfedd i ffwrdd, ac yn bum troedfedd o faint. Byddai'n amhosibl i unrhyw berson eu symud heb help peiriant – a does dim olion peiriannau i'w gweld yn unman ger y safle.

Mae'n sicr fod ffrwydrad neu wrthdrawiad nerthol wedi digwydd yma nes achosi i'r graig falurio ac i wyneb y tir gael ei greithio mor ddwfn. Efallai na chawn byth wybod beth yn union ddigwyddodd yma, ac mai parhau'n 'ddirgelwch' wna Creithiau Cefn Drum.


**Mwy o luniau'r dirgelwch ar GEFN DRUM ar dudalen 9**

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 286**
**CHWEFROR**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.*

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Golygyddol:**
**IWAN ROBERTS**
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
**ARWEL JONES**
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**DYDDIADUR Y MIS**
Mrs Margaret Cyfni Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug (675605)

**TREFNYDD BWNDELU**
Jean Jones, Cesail y Mynydd, Deiniolen (871550)

**TRERFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)

**TREFNYDD PLYGU**
Shioned Griffith (650570)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650788)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DEINIOLEN:** W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (672270)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


**Y RHIFYN NESAF**
**Deunydd i law'r golygyddion perthnasol**
**NOS LUN, CHWEFROR 18**
**Os gwelwch yn dda**
**Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg**
**NOS IAU, CHWEFROR 28**

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

**Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570**

| Rhifyn | Dyddiad Copi | Dyddiad Plygu | Ble | Cysylltu a |
|---|---|---|---|---|
| Mawrth | Chwefror 18 | Chwefror 28 | Llanrug | Mr Eifion Roberts |
| Ebrill | Mawrth 11 | Mawrth 21 | Cwm-y-glo | Mrs Iris Rowlands |
| Mai | Ebrill 22 | Mai 2 | Deiniolen | Mr W. O. Williams |
| Mehefin | Mai 20 | Mai 30 | Brynrefail | Mrs Dilys W. Morris |
| Gorffennaf | Mehefin 10 | Mehefin 20 | Bethel | Mr Geraint Elis |

# *Llythyrau*

Annwyl Olygydd,

A gaf fi, drwy golofn lythyrau Eco'r Wyddfa, ddiolch i Miss Marian Jones, Minallt, Dinorwig, am ei gwaith diflino yn rhoi hanes hynt a helynt pentref Dinorwig yn yr Eco pob mis.

Y tro diwethaf i Marian ohebu oedd yn rhifyn 281 o'r Eco, mis Medi 2001.

Yn rhif 282 bu iddi ymddiheuro i aelodau *Pwyllgor Cymdeithas Trigolion Dinorwig Residents* am roi mantolen ariannol y gymdeithas, a gofyn ychydig o gwestiynau yn yr Eco.

Ym mis Medi 2000, cawsom gylchlythyr drwy ein drysau. Soniwyd ynddo am gychwyn cangen yr Urdd, Gwerin y Coed a Chlwb Ieuenctid yn y pentref, ond beth a gawsom gyda'r grant, Syrcas Un Dyn, African Link ac yn y blaen.

Ar 30 Ionawr 2001 cafwyd cyfarfod yn y Ganolfan i gael nodiadau ar grŵp ffocws pobl dros bum deg, yr oedd yr holiadur yn uniaith Saesneg, sent by the Assembly for Wales.

Cyn cychwyn y cyfarfod dywedais fy mod yn anhapus nad oedd y papur pynciau ar gyfer y cyfarfod yn ddwyieithog. Eglurwyd mai ar gyfer yr ymgynghorydd yn unig y paratowyd y papur ond y byddai'r holl drafodaeth a nodiadau'r cyfarfod yn ddwyieithog.

Cynhaliwyd pwyllgor blynyddol Cymdeithas Trigolion Dinorwig Residents yn ddiweddar ac, er mawr siom i mi, yr oedd y cyfarfod hwn eto yn uniaith Saesneg. Teg yw dweud fod offer cyfieithu wedi ei osod yn y Ganolfan, ond fod y cyfieithydd heb droi i fyny.

Y siom i mi oedd fod y pwyllgor wedi mynd ymlaen yn uniaith Saesneg. Codais a cherdded allan.

Ar brynhawn Sul, Tachwedd 25, 2001 derbyniais lythyr gan ysgrifennydd Dinorwig Residents. Yr oedd am i mi wybod na fyddai'r gymdeithas yn fodlon defnyddio'r ganolfan ar gyfer *'creche'* y gweithgareddau gan eu bod wedi eu cynghori i beidio, am nad oedd yr adeilad yn addas i blant. Nid wyf wedi derbyn yr un gair gan yr un Swyddog o'r Swyddfa Addysg na neb arall i gadarnhau neges y llythyr.

Y cwestiwn mawr yw. Beth sydd wedi digwydd i Ddinorwig? Pam fod yr Eisteddfod, y Gymdeithas Lenyddol, y cyngherddau a'r cwbwl wedi mynd i'r gwynt?

Beth ddaw o'r iaith a'r diwylliant?

Y bwriad yw ceisio adfywio'r pentref drwy gynnal cyngerdd yn y Ganolfan ar Fawrth y cyntaf, 2002. Bydd croeso cynnes i bawb, a gobeithio erbyn dechrau'r flwyddyn y bydd Miss Marian Jones yn gallu rhoi mwy o fanylion am y cyngerdd yn Eco'r Wyddfa.

Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Yn gywir iawn,

Hannah Roberts
Tŷ'r Ysgol
Dinorwig.

---

Annwyl Olygydd,

Joseph Parry 2002

Bydd 2003 yn ganmlwyddiant marw'r cerddor Dr. Joseph Parry (1841-1903).

Fel rhan o raglen goffa'r flwyddyn honno, bwriadaf fynd â'm darlith / cyflwyniad cerddorol ar Joseph Parry ar daith.

Os yw'ch clwb neu gymdeithas am gyfrannu at goffáu'r Pencerdd, cysylltwch mor fuan ag sy'n bosibl er mwyn sicrhau dyddiad cyfleus.

Yn gywir,

Dulais Rhys (Dr.)

---

Annwyl Olygydd,

CYMUNED

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus o'r grŵp Cymuned nos Fercher, 9 Ionawr yn Ysgol yr Hendre, Caernarfon. Y siaradwyr gwadd oedd Seimon Glyn, Richard Morris Jones a Lari Parc gyda Eurig Wyn yn llywio'r drafodaeth. Daeth criw da o oddeutu cant a hanner i'r neuadd a chafwyd cyfle ar ôl yr areithio i gyfranwyr o'r llawr.

Soniodd Richard Morris Jones am argyfwng yr iaith Gymraeg yn ein cymunedau bellach, gan sôn nad ydym ar ein pennau ein hunain yn y frwydr ond fod miloedd o ieithoedd lleiafrifol ledled y byd yn dioddef o dan rym grwpiau ieithyddol cryfach na hwy eu hunain. Gwnaeth gymhariaethau gyda llefydd fel Iwerddon, Gwlad y Basg, Catalonia a Seland Newydd, ble mae'r Maoriaid hwythau yn ymladd i gadw eu hiaith a'u diwylliant.

Wedi dysgu'r Gymraeg yn ystod y deng mlynedd diwethaf y mae Lari Parc ac roedd yn wych clywed gymaint yr oedd wedi syrthio mewn cariad â'r ardal, ei phobl, a'i hiaith a diwylliant. Gwnaeth apêl ar i fewnfudwyr wneud yr ymdrech i ddysgu'r Gymraeg yn union fel ag y mae yntau wedi ei wneud mor llwyddiannus.

Yn olaf fe siaradodd Seimon Glyn ynglŷn â'r argyfwng sy'n wynebu'r cymunedau Cymraeg y dyddiau hyn, gan sôn am y dasg anodd o argyhoeddi yr awdurdodau yng Nghaerdydd fod angen gweithredu i gadw'r iaith yn un gymunedol fyw. Y mae gan Cymuned eisoes oddeutu mil o aelodau a phwysleisiodd Seimon fod angen llawer mwy o aelodau i ddwyn pwysau ar y Cynulliad, gan fod angen gweithredu ar fyrder. Ymunodd tua 30 o aelodau newydd ar y noson ond wrth gwrs, mwyaf yn y byd gorau yn y byd.

Yn dilyn llwyddiant y cyfarfod gobeithir yn awr sefydlu cangen o Cymuned yng Nghaernarfon a'r cylch o fewn y pythefnos nesaf.

Sefydlwyd Cymuned y llynedd gyda'r nod o amddiffyn ein cymunedau drwy geisio ymateb i'r problemau ar dri ffrynt. Yn gyntaf y broblem mewnlifiad a'r problemau ieithyddol sy'n esgor ohono; yn ail yr all-lifiad, gan ein bod yn colli llawer o'n pobl ifanc oherwydd prinder swyddi addas; yn olaf sut i gymhathu yn ieithyddol y mewnfudwyr

*(parhad ar dudalen 3)*





**CASTELL BOWNSIO AR GYFER POB ACHLYSUR**

**Down â fo atoch a'i nôl wedyn**

**Ffôn: 871782**

# Haf yn Codi Arian




Dros gyfnod y Nadolig eleni bu Haf o Buarthau, Llanrug yn brysur yn trefnu Cyngerdd Nadoligaidd yn y dderbynfa, Cyngor Gwynedd. Casglwyd y swm anhygoel o £507.00 ac mae'r llun uchod yn dangos Haf yn cyflwyno siec am yr arian i Liz Perkins o Cymorth Cristnogol ar gyfer apêl trueiniaid Affganistan. Hoffai Haf ddiolch i drigolion Bro'r Eco am eu cyfraniad, yn enwedig Côr Clychau'r Grug. Ers i Haf ddechrau gweithio yng Nghyngor Gwynedd yn 1995 mae wedi bod yn perswadio rhai o'i chyd-weithwyr i ddod at ei gilydd i ffurfio côr i ganu carolau mewn cyngerdd Nadoligaidd yn Nerbynfa'r Cyngor yn flynyddol. Y diben yw codi arian at wahanol elusennau. Dyma'r elusennau sydd wedi elwa o'i gwaith caled: UNICEF, Ty^ Gobaith, Ysbyty Eryri, Ty^ Enfys, Ymchwil y Galon, Ward Alaw Ysbyty Gwynedd, Cronfa Apêl Affganistan a Plant Mewn Angen. Cyfanswm yr arian a gasglwyd gan Haf yw £3,236. Mae portread o Haf, gan ei chyfnither Jeni Lyn Morris, ar dudalen 12 o'r Eco.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

(Parhad o dudalen 2)

sy'n dod i fewn, gan mai nid mudiad gwrth-Seisnig ydyw Cymuned, fel y dangosodd araith Lari Parc a'r siaradwyr eraill ar y noson.

Cyflwynodd Cymuned 171 o argymhellion positif i'r Cynulliad fis Tachwedd diwethaf ar sut i ddelio gyda'r argyfwng sy'n ein hwynebu. Os ydych chi, fel y mae aelodau presenol Cymuned, yn ymboeni am sefyllfa'r iaith Gymraeg fel iaith gymunedol apeliwn arnoch i ymaelodi â'r mudiad. Bydd cael niferoedd mawr o aelodau tu cefn i gynrychiolwyr Cymuned yn rhoi hwb iddynt yn eu trafodaethau gyda'r awdurdodau yng Nghymru yn y dyfodol, ac yn gorfodi'r awdurdodau hynny i wrando ar eu sylwadau. Gallwch wneud hyn trwy anfon am ffurflen gais i'r swyddfa yn y cyfeiriad canlynol:

Cymuned,
8 Heol Stanley,
Aberystwyth,
Ceredigion
SY23 1LS.

Os hoffwch, ewch ar y we a chysylltu â www.cymuned.org neu ffoniwch Aled ar (01286) 671139 neu Gareth ar (01286) 872701 i holi am ffurflen ymaelodi.


Yn gywir,
Aled Thomas
Gareth Llwyd Dafydd


**CARPEDI GERAINT OWEN**

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCH UNRHYW AMSER:
WAUNFAWR (01286) 650552

**GWASANAETH LLEOL AR GYFER**
PARTÏON • PRIODASAU • PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU . . .

**RHOSTIO MOCHYN**



**AR GYFER POB ACHLYSUR**

* Cig o ffermydd lleol * Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

**DEWCS, MAE O'N FLASUS!**
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON, LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188

**GARTH MAELOG**
**PET CENTRE AND GROOMING SALON**

Bwyd ac anghenion Anifeiliaid anwes a physgod. Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio cŵn a chathod o bob math gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

**PRYD I BAWB**

Bwffe blasus o safon at bob achlysur

CINIO BUSNES
BEDYDD
PEN-BLWYDD
TE ANGLADDAU



CERID MACKINNON
(01286) 673190

**DODREFN PERKINS**
(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

• Pob math o ddodrefn tŷ
• Cegin, 'stafell fyw, lloft
• Prisiau cystadleuol
• Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

# O SIAMBAR SELWYN

Mae'n nos Calan. Mae'n noson dawel, oer – noson loergan, a'r Wyddfa a'i chriw dan fentyll gwynion, ac mi rydan ni adre yma ym Mhenisarwaun. Fedrwn i ddim cael gwell golygfa petawn i yn y Swisdir neu Awstria.

Ydi, mae o'n brofiad diarth i ni'n dau fod adre ar nos Galan. Yr arferiad gennym ers blynyddoedd bellach ydi hel ein pac a *'take the high road'* a threulio'r flwyddyn newydd yng Nghaeredin gyda'n cefndryd Celtaidd.

Ond, wedi cysidro, adre yma yr oedden ni'r llynedd hefyd, ond roedd 'na reswm dros hynny gan ein bod ni ar fin cychwyn ar fordaith o amgylch De America, ac i'r Wladfa am y tro cynta erioed.

Roeddwn i wedi cytuno i fynd yno i feirniadu i Eisteddfod y Wladfa gyda fy nghyfaill T. Gwynn Jones (Gwyn Tregarth) rai blynyddoedd yn ôl ond, yn anffodus, ni fedrem gyflawni'r addewid oherwydd Rhyfel y Malvinas.

Petawn i wedi mynd yr adeg honno, glanio mewn awyren yn Buenos Aires fyddwn i, ac oddi yno i Drelew, ond pan es i yno y llynedd mi ges i'r profiad o lanio ym Mhorth Madryn hefo llong, ac ar fideo fy nychymyg fe droes y *Norwegian Dream* yn *Mimosa* ar y prynhawn heulog hwnnw o Ionawr 2001.

Dwi'n falch i mi gael mynd ar y daith hon flwyddyn yn ôl. Fyddai ymweliad â Buenos Aires a'r Wladfa ddim yn brofiad dymunol heddiw, yn wyneb yr argyfwng sy'n bodoli yn yr Ariannin.

* * *

Yn ystod y pnawn 'ma mi fûm i'n cario allan un o'm dyletswyddau blynyddol – sef llenwi'r bylchau yn fy nyddiadur ar gyfer 2002.

Sylwaf bod amryw o'r eisteddfodau sy gen i yn rhai a ohiriwyd y llynedd oherwydd clwy'r traed a'r genau. Wrth fynd yn hŷn rydw i'n nodi ambell ddyddiad pen-blwydd – rhag ofn i mi anghofio. Mae 'na ambell gyhoeddiad i ddarlithio. Rhaid i mi gofio hefyd fod Ffeinal Cwpan Lloegr eleni ar 4 Mai – rhag ofn i mi addo mynd i ryw Steddfod. Mae 'na ddau neu dri o dripiau i'r Alban ac i Iwerddon wedi'u trefnu. Y Steddfod Genedlaethol yn Nhŷ Ddewi wrth gwrs, a mordaith unwaith eto i'r North Cape ac i Ynys Spitsbergen. Fedra i ddim mynd yn nes at Begwn y Gogledd na'r fan honno. Ydi ma'r dyddiadur newydd wedi llenwi cryn dipyn. Does gen i ond gobeithio y ca' i nerth ac iechyd i gyflawni'r cyfan.

Yr adeg hon o'r flwyddyn mae'r newyddiaduron yn llawn o hysbysebion gwyliau, ac oherwydd trychineb 11 Medi mae 'na fargeinion i'w cael – os ydych chi'n barod i hedfan – yn enwedig i'r America.

Roeddwn i ar fwrdd y *Black Watch* yn cychwyn am Fôr y Canoldir pan dorrodd y newydd am y drychineb yn America. Roedd 'na gryn amheuaeth a ganiateid i ni fynd ymlaen. Dyna'r adeg y bu i Myra a minnau ddod i'r penderfyniad na fyddem ni eto yn gwneud taith hir mewn awyren. *Daeth i ben deithio byd*, neu o leiaf deithio i *bellafoedd* byd.

Mae'n bur debyg y gwnawn ni ambell i drip bach mewn awyren, oherwydd wedi'r cyfan, mae'n cymryd llai o amser i fynd o Fanceinion i Malaga neu Majorca nag ydi i fynd o Gaernarfon i Gaerdydd. O'r holl deithiau mewn awyren, dim ond tair gwaith y ces i fraw. Ydw, rydw i wedi cael sawl braw wrth deithio mewn car.

* * *

Mae Big Ben newydd gyhoeddi i ni groesi'r trothwy i 2002. Mae'r olygfa gyfarwydd o Stryd y Dywysoges, Caeredin ar y sgrin. Mi wn i fod amryw o fy ffrindiau i yno yn morio canu, neu yn codi bys bach hefo'r 'Wî Dram' traddodiadol yng Ngwesty'r Mount Royal. Mi gymera inna WÎ DRAM bach rwan hefyd – y cynta 'leni.

Dwi wedi dymuno Blwyddyn Newydd Dda i Myra, ac er y bydd 'na fis o'r flwyddyn 'ma wedi mynd heibio cyn i chi ddarllen fy nghyfarchion – wel Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd, a diolch i chi am droi i mewn i'r siambar.

Mae'n dal yn fore cynnar, tawel, oer ac mae'r Wyddfa a'i chriw yn dal i swatio dan siol o eira, a'r lloer yn ariannu'r fro.

O wel, un 'Wî Dram' bach arall cyn mynd i'r ciando.

## Clwb Eryri

Cynhaliwyd cyfarfod o Glwb Eryri yn y Fictoria nos Wener, 4 Ionawr 2002. Yn ei ffordd ddiffuant ei hun dymunodd y Llywydd Dei Tomos flwyddyn newydd dda i'r aelodau gan gyfeirio yr un pryd at y newyddion diweddar am farwolaeth un o frenhinoedd ein llên, Gruffudd Parry. Anfonwyd cofion yr aelodau at Tom Eilian a chroesawyd Eifion Jones yn gynnes iawn i'w gyfarfod cyntaf.

Cynhaliwyd y safon farddol gyda chyfraniad Bardd y noson, Rol Williams. Gan ddilyn y patrwm a osodwyd gan Wyre, cannodd gerdd i Lywydd a Siaradwr y Noson. Soniwyd yn ganmoladwy am y 'ddau o'r Bont – dau glên a dau Brifathro' a disgrifiodd y siaradwr fel 'ffermwr – *part time basis*'.

Trosglwyddwyd y gweithgareddau i Lywydd y noson, Stanley Owen, a nododd ei emdygedd o'r ffaith fod Geraint yn barod i gymeryd y noson er iddo fod yn bur wael. Rhoddodd amlinelliad o'i yrfa fel athro a Phrifathro ond yn bennaf pwysleiswyd dawn farddonol y siaradwr a'r ffaith iddo ennill nifer helaeth o gadeiriau a dod yn agos iawn i'r brig ym mhrif gystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol.

Pleser pur oedd gwrando ar Geraint yn traddodi ei sgwrs ar farddoniaeth. Gofynnodd ddau gwestiwn – Beth yw Barddoniaeth? a beth mae Barddoniaeth yn ei olygu i chwi? Aeth ymlaen yn gywrain iawn i gynnig atebion, gan dynnu yn helaeth o'i brofiad a'i adnabyddiaeth o feirdd Penllyn.

Soniodd am Farddoniaeth fel cyfrwng dirgel a bendigedig i fynegi moddau; barddoniaeth fel dull o gyfathrebu profiad, a barddoniaeth fel cyfrwng pleser. Pwysleisiodd allu'r Bardd, fel y plentyn, i ddefnyddio'i ddychymyg i'r eithaf. Roedd gwrandawiad astud yr aelodau yn dyst i lwyddiant y siaradwr i gyfathrebu ei fwyniant pur o sŵn a chyfaredd barddoniaeth.

Cafwyd trafodaeth fywiog o'r llawr gyda'r aelodau yn rhyfeddu at ddawn Geraint yn traethu mor rhwydd a'i allu yn dyfynnu cymaint o farddoniaeth ar ei gof. Cyfeiriwyd at bwysigrwydd meithrin dychymyg mewn plant a hefyd gwerth dysgu ar gof. Soniwyd hefyd am ddylanwad bro ac ardal ar unigolion. Diolchwyd, yn briodol iawn, gan John Norman Davies. Roedd Norman yn falch o gael dychwelyd i'r Clwb wedi cyfnod o absenoldeb ac yn ddiolchgar iawn o gael bod yn bresennol i glywed araith mor gofiadwy.

Cyhoeddwyd bod y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar nos Wener, 1 Chwefror 2002, pryd y cadeirir gan Dr. Gwynn Williams gyda Wyre Thomas yn traddodi'r araith. Atgoffir yr aelodau am y Cinio Gŵyl Dewi sydd i'w gynnal ar nos Wener, 22 Chwefror, gyda Eirug Wyn, Y Groeslon, yn siaradwr gwadd.


Cefnogwch ein Hysbysebwyr

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR. . .




BYSIAU ARFON
LLANRUG

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

Fframia

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW

KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

**Un funud fach**

## 20 02 20 02 2002

Bydd yna un funud fach go arbennig ar un nos Fercher ym mis Chwefror eleni. Roedd yna lythyr yn y papur ddoe yn cyfeirio at y ffaith y bydd dau funud wedi wyth y noson honno, yr ugeinfed dydd o'r ail fis, yn rhoi'r patrwm rhifol cofiadwy uchod i ni. Os wyf fi'n iawn, bydd raid disgwyl am 110 o flynyddoedd cyn gwelir yr un patrwm eto.

Er bod y llythyrwr yn awgrymu y dylid ceisio rhoi sylw arbennig i'r funud fach yma, go brin y bydd y mwyafrif ohonom yn oedi i feddwl amdani. Y noson honno bydd gwaith neu bryd bwyd neu raglen deledu yn sicrhau y bydd yr un funud fach hon yn llithro heibio heb i ni sylwi arni. A bydd hynny'n wir am gymaint o funudau ac oriau'r flwyddyn newydd hon. Mae amser yn gwibio heibio.

Ond mae yna rai munudau cofiadwy. Mae yna funudau sy'n newid bywydau. Cafwyd munudau felly yn hanes rhai ohonom y llynedd, a bydd munudau o'r fath eleni eto. Un funud fach y newydd drwg. Un funud fach y ddamwain. Un funud fach y golled. Os gwelsoch y fath funud y llynedd gobeithio i chi brofi nerth a chynhaliaeth Duw. A boed cysur a chymorth Duw gyda phawb a brofo funudau felly eleni.

Ond diolch hefyd am funudau eraill. Diolch am funud fach y newydd da. Un funud fach y geni. Un funud fach y gwella. Un funud fach y llwyddiant. Cafwyd, ac fe geir eto funudau felly hefyd, a diolch i Dduw amdanynt. A munudau felly a ddymunwn i'n gilydd ddechrau'r flwyddyn newydd.

A'r un funud fach sy'n peri'r newid mwyaf oll ym mywydau pobl yw'r funud honno pan ddônt i adnabod yr Arglwydd Iesu Grist. Munud y dröedigaeth; munud yr aileni; munud yr ymgysegru i'r Arglwydd Iesu Grist. Dyna funud sy'n rhoi cyfeiriad ac ystyr a gwerth newydd i fywydau pobl. A gobeithio'n fawr y bydd y fath funud yn rhan o brofiad llawer o bobl, yn cynnwys efallai rai o ddarllenwyr y golofn hon, yn ystod y flwyddyn sydd o'n blaenau.

Blwyddyn newydd dda i bawb ohonoch.

JOHN PRITCHARD

Peidiwch gori ar Stori –anfonwch hi i'r *ECO*

## WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

CLWB 300. Dyma restr yr enillwyr am fis Rhagfyr: £40: Mrs L.J. Williams, Plas Bodhyfryd; £25: Mrs Betty Griffith, Gorffwysfa; £10: Mr E.O. Hughes, 3 Bryn Golau.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cynhaliwyd cyfarfod y Sefydliad ar 3 Ionawr yn nhŷ Mrs Nancy Buckley, 4 Croesywaun, pryd y croesawyd yr aelodau i gyfarfod cyntaf 2002 gan y llywydd, Mrs Catherine A. Jones.

Darllenwyd y llythyr misol a nodwyd y materion perthnasol. Gwnaethpwyd trefniadau i rai o'r aelodau fynd i'r Cyfarfod Blynyddol yn Ysgol Brynrefail ar 2 Chwefror. Cwis ar ffurf *'Who wants to be a millionaire'* wedi ei drefnu gan Mrs Catherine A. Jones oedd trefn y pnawn. Cafwyd tipyn o hwyl ond dim arian mawr wedi eu hennill! Diolchodd y llywydd i Mrs Buckley am y croeso a'r te a'r danteithion i ddilyn. Bydd y cyfarfod nesaf ar 2 Chwefror. y gŵr gwadd fydd Mr Elfyn Thomas o gwmni'r Seren Arian. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Lun, 14 Ionawr cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Ganolfan gyda Mr R. Gwynn Davies yn llywyddu. Cafwyd sgwrs ddifyr ar hanes Ifan Gruffydd gan Mr William Owen, Borthygest.

Mae newid yn y rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf sydd nos Lun, 11 Chwefror – cyfarfod olaf ond un y tymor – pan y ceir sgwrs gan Mr Richard Jones, Llanfechell ar y testun 'Odl am hwyl' yn lle Mr Maldwyn Thomas, Bangor a fydd yn awr yn cloi'r tymor ym mis Mawrth.

Gobeithir y bydd cynulleidfa deilwng yn y cyfarfod gan fod y presenoldeb wedi bod braidd yn siomedig yn ddiweddar. Byddwn yn trafod a oes angen trip neu ginio ar derfyn y tymor yng nghyfarfod 11 Chwefror.

YSGOL FEITHRIN. Ar 1 Mawrth eleni bydd ysgol feithrin Waunfawr yn dathlu ei phen-blwydd yn 30 oed. Fel rhan o'r dathliadau byddwn yn cynnal bore agored ar ddydd Gwener, 1 Mawrth i gyn-staff a chyn-aelodau'r pwyllgor. Os oes gennych ddiddordeb mewn dod ar y bore cysylltwch â Nia ar 650092 neu Wendy ar 650129. Yn ogystal os oes gan unrhyw un hen luniau o blant yr ysgol feithrin buasai'r ysgol yn falch o'u derbyn, yn enwedig lluniau o'r dyddiau cynnar.

DIOLCH. Dymuna Mrs Rhiain Llywela Jones, 22 Tref Eilian ddatgan ei diolch i'w theulu, perthnasau, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd drwy'r galwadau ffôn, y cardiau a'r blodau a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ym Mangor ac Eryri. Diolch yn fawr i'r arbenigwyr, y meddygon a'r gweinyddesau yn Ward Dulas, Ysbyty Gwynedd a Ward Padarn, Ysbyty Eryri. Diolch hefyd i'r meddyg teulu a'r gweinyddesau cymuned sy'n galw'n ddyddiol. Diolch i'r Gweithwyr Cymdeithasol, i'r OCC therapydd a'r ffysiotherapydd a staff Ysbyty Dydd Eryri am bob gofal. Diolch yn fawr i chi oll gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

(Rydym yn falch o ddeall dy fod wedi cael dod adref cyn y Nadolig Rhiain ac yn dymuno dy weld yn cryfhau yn ddyddiol.)

LLONGYFARCHIADAU GENEDIGAETH. Ganwyd merch fach, Creana, i Eirian ac Allan, 8 Ael y Bryn. Chwaer fach i Dilwyn, Diane, Elen, Caryl, Tara a Chloe. Rwy'n siwr y bydd y chwiorydd mawr wrth eu bodd yn cael helpu i'w magu.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Gwilym John Roberts, Llwyn Celyn ar enedigaeth gor-ŵyr bach, Guto. Mab bychan i'w hwyres, Gwen a'i phriod, Myfyr. Ac i Eira ar ddod yn fodryb i'w gor-nai bychan cyntaf.

DYWEDDÏO. Dymuniadau gorau i Gwyndaf Williams, Tros-y-Gors ar ei ddyweddïad â Karen o Lerpwl.

DYMUNWN yn dda i Martin Roberts, Sŵn-y-gwynt ar ei ddyweddïad â Miriam o Langefni.

DYWEDDÏAD: Dydd Calan cyhoeddwyd dyweddïad Iwan Ellis, Ty'n Llidiart ac Anwen Ebeneser o Bow Street, Aberystwyth.

Llongyfarchiadau a phob hapusrwydd i'r tri phâr ifanc.

DATHLU PEN-BLWYDD. Yn ystod cyfnod y Nadolig bu Mr Wyn Griffith, Ger y Nant yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed, ac Ian Roberts, Cynlas yn dathlu ei 21 oed.

Dathlu cyrraedd eu deunaw oed y bu James Nesfield, Bryn Argoed a Sion Rhys Williams, 18 Bro Waun. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chwi oll.

GWELD GWERTH. Rydym ni yn Tref Eilian wedi bod yn Iwcus iawn o gael pont i groesi dros yr afon sydd yn rhedeg yng nghefn y stad dai yma. Bydd yn hwylus iawn i bawb, nid trigolion Tref Eilian yn unig, i fynd i'r capel ac i'r Antur, yn lle gorfod cerdded yr holl ffordd heibio Ael y Bryn, yn enwedig i'r rhai sy'n cael cerdded yn boen erbyn hyn.

Diolch i Mr Gwilym Williams am feddwl am y syniad ac, yn fwy na hynny, am weithio yn galed i'w gosod. Miss Katie Roberts, sydd dros ei 90 oed gafodd y fraint o'i chroesi gyntaf, a hi sy'n diolch amdani, ar ei rhan ei hun a phawb arall, mae'n ddiamau.

PRIODAS. Dymunwn briodas hapus i John a Nickie, sydd wedi ymgartrefu yn stad Dôl Erddi.

ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Mr Emyr Jones, Bryn Meredydd adref wedi iddo dreulio amser mewn ysbyty yn Lerpwl.

Wedi iddi syrthio a thorri ei choes bu Mrs Catherine Wiliams, Trem y Don yn ysbyty Eryri am gyfnod hir, ond rydym yn falch o ddeall ei bod yn gwella ac adref erbyn hyn.

Gorfu i Mabon, mab bychan Mr a Mrs Pritchard, Llys Meredydd; Angharad Owen, Stad Tŷ Hen; Mr Trefor Beech, Bronallt; Mr Cyril Smith, Rhoslan a Mr R.W. Roberts, 9 Bryn Golau dreulio cyfnod yn yr ysbyty yn ystod y mis diwethaf. Gobeithio eu bod yn teimlo'n well wedi cael dod adref.

COFION. Anfonwn ein cofion cynnes at Mrs Idris Jones sydd yn Ysbyty Eryri.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mrs Henderson, Siop y Pentref yn ei phrofedigaeth o golli ei mam.

Am yr eilwaith o fewn ychydig wythnosau daeth profedigaeth eto i ran Mr Bill Lewis, Stad Tref Eilian. Cydymdeimlwn ag ef a'i frawd, Derlwyn, Stad Bryn Golau yn eu profedigaeth o golli eu chwaer, Tegwen.

Cydymdeimlwn â Mrs Lesley Willliams a'r teulu, Stad Tŷ Hen yn eu profedigaeth o golli llys-dad Lesley.

HANES Y BYSIAU WHITEWAY. Diddorol iwn oedd cael pori yn y llyfr ar hanes bysiau Whiteway. Rwy'n siwr ei fod wedi dod a llawer o atgofion i drigolion y fro. Bill Rear sydd yn gyfrifol am gasglu'r wybodaeth i'r llyfr.

PRIODAS. Ddeuddydd wedi'r Nadolig, yng ngwesty Meifod, Bontnewydd, priodwyd Eurig Jones, Tŷ Ni, â Saran Thomas o Fangor. Dymunwn yn dda iddynt ar eu priodas ac yn eu cartref Bryn Gloch, Betws Garmon.

Yn y rhifyn hwn o'r Eco carwn ddiolch yn fawr i Mr a Mrs Terry Macdaid, Lloches, Croes y Waun am y croeso a gafodd deuddeg o blant a'u hathrawon, a oedd ar wyliau dros y Nadolig ym Manceinion, yn eu cartref.

Bu rhai ohonynt yn aros yn Glangwna yn ystod yr haf (nid yr un criw – maent yn cael dod yn eu tro), ac felly y daeth Mena Macdaid i wybod amdanynt.

Plant bach o Chernobyl oeddynt, yn gwybod dim am y moethusrwydd yr ydym ni yn ei gael yma. Mae'r tywydd yn oer iawn ac mae tlodi mawr yn y lle maent yn byw. Roedd yn werth bod yng nghartref Mena yn gweld mor falch oeddynt o'r anrheg bach a dderbyniodd pob un ganddi a'r te parti blasus roedd wedi ei baratoi iddynt.

Cefais innau, a rhai eraill o gylch gwau y pentref, fod yno. Rydym fel tîm o ryw saith wedi bod yn gwau sgwariau amryliw i wneud blancedi cynnes iddynt. Cawsant bedair blanced wely maint dwbwl i fynd yn ôl gyda hwy. Roeddynt wedi mwynhau y prynhawn yn arw iawn.

Diolch i'r Parch Myfanwy am ein rhoi ar waith i wau y sgwariau ac mae Mena wedi cario ymlaen â'r gwaith. Dywed Mena fod croeso mawr i unrhyw un ymuno â ni yn y Clwb Gwau, sy'n cyfarfod yn Lloches am ddau o'r gloch y dydd cyntaf o bob mis. Fe gewch yr edafedd at y gwaith ac, yn fwy fyth, y pleser o wneud y gwaith da yma. Maent wirioneddol angen cynhesrwydd yn y rhan oer yma o'r byd. Diolch hefyd i Mena am ei charedigrwydd tuag atom pan fyddwn yn ei chartref.

**Diolch i chwithau, Miss Katie Roberts, am yr hanes diddorol yma o weithgaredd mor werthfawr sy'n cymryd lle yn y Waun. Gobeithio y bydd pawb sy'n gallu gwau yn manteisio ar eich gwhoddiad i helpu.**

# CHWILOTA



## Nabod eich Gelltydd

**Aeth rhuthr y Nadolig a'r Calan heibio eto, ac erbyn hyn mae'r gwyliau'n ymddangos fisoedd tu cefn i ni. Mae'n amlwg fod y rhuthr wedi bod yn ormod i ddarllenwyr y golofn y tro hwn, oherwydd ni fu unrhyw ymateb i'r gystadleuaeth. Does bosibl fod lleoli y gwahanol elltydd y tu hwnt i ddirnadaeth darllenwyr a haneswyr lleol diwylliedig bro'r Eco! Ond efallai nad oedd tocyn llyfr gwerth decpunt yn ddigon o abwyd i chi!**

Dyma'r atebion felly:

1. Gallt Moses – ar lwybr yr Wyddfa.
2. Gallt Pen Cefn – o Gaeathro i... Pen Cefn.
3. Gallt Coed Mawr – o'r Waunfawr i fyny am y Lôn Wen a chyffiniau Rhosgadfan.
4. Yr Allt Goch – un yng Nghwm-y-glo a'r llall yn Llanberis (ac mae Clogwyn Coch ar yr Wyddfa hefyd.)
5. Yr Allt Ddu – ym mhen pellaf Dinorwig.
6. Gallt Llidiart Trwm – ar ffordd Clegir, rhwng dau dwll chwarel Glynrhonwy.
7. Gallt Sam – i fyny am Glwt-y-bont o ardal Ysgoldy.
8. Gallt y Foel – o Ddeiniolen i fyny am Ddinorwig.
9. Allt Wen – ar lethr goediog rhwng Llyn Padarn a Dinorwig.
10. Gallt y Glyn – o Lanberis tua Gwesty Gwêl y Llyn.

### Teulu Eithin Duon

Gan Margaret Roberts, Rhedynog, Caernarfon y daeth ymateb i hanes un o'r teulu crwydrol hwn. Mae ganddi ddiddordeb yn Hugh Morris, brawd i daid Syr John Morris-Jones. Fe'i ganed ym 1807 ar fferm Eithin Duon, a phriododd â Gwen Jones, morwyn yn yr Hafod, Ceunant. Ar dystysgrif eu priodas ysgrifennodd y Parch. Peter Bailey Williams y cyfenw yn 'Maurice', ond arwyddodd Hugh yn 'Morris'. Roedd Gwen hithau yn medru arwyddo'i henw. Fe'i ganed yn Llannor.

Yn ôl Cyfrifiad 1841 ac 1851 roedd Hugh a Gwen Morris yn byw yn Nhy'n Clwt, ger Capel Glasgoed, Penisa'rwaen. Erbyn 1861 roedd Hugh wedi marw, a Gwen bellach yn benteulu, ac yn byw yn y Vron Howel, Penisa'rwaen. Roedd yn parhau yno yn 1881 yn 72 mlwydd oed.

Mae'r berthynas deuluol â Margaret Roberts ar ochr Gwen, ac mae'n awyddus i ddarganfod oes rhai o ddisgynyddion plant Hugh a Gwen yn parhau i fyw yn y fro. Enwau'r plant oedd John, Thomas, William, Owen, Morris a Mary.

Priododd Mary â William Williams a buont hwythau'n byw yn y Fron Howel gyda'u meibion John Morris Williams a William Hugh Williams.

### Gwaith a Phleser

Mae rhai ohonoch yn ymwybodol bellach fy mod yn gweithio'n llawn amser am gyfnod yn yr Archifdy yng Nghaernarfon – nefoedd ar y ddaear yw ymateb llawer un. Ond cofiwch, yno i weithio rydw i, nid i ddilyn fy niddordebau! Yn wir, mae angen i mi gymryd gwyliau o'r gwaith er mwyn cael mynd yn ôl yno ar drywydd fy niddordebau!

I'r rhai sy'n diddori mewn achyddiaeth a hanes teuluol, mi wyddoch fod galw mawr am gael gweld Cyfrifiad 1901. Roedd posib cael mynediad i'r holl wybodaeth dros safle ar y wê, ond cymaint oedd yr ymateb fel y bu'n rhaid cau'r safle dros dro er mwyn ceisio hwyluso mynediad i fwy o bobl. I'r rhai ohonoch sydd am ddarganfod hanes eich teulu ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, cofiwch fod Cyfrifiad 1901 am yr hen Sir Gaernarfon a'r hen Sir Feirionnydd ar gael yn yr Archifdy yng Nghaernarfon. Ond mae'n talu i archebu peiriant 'fiche' ymlaen llaw – rhag ofn eu bod i gyd ar ddefnydd.

Un rhan o'r gwaith sy'n fy wynebu dros yr wythnosau nesaf yw dechrau catalogio cofnodion yn perthyn i Gwmni Trên yr Wyddfa – sef y cwmni gwreiddiol a elwid yn *Snowdon Mountain Tramroad and Hotels Limited Company*. Mae cofnodion y cwmni yn dyddio'n ôl i gyfnod cychwyn y rheilffordd ac yn rhoi darlun reit fanwl o sut roedd y cwmni'n gweithredu. Mae dros bum cant o eitemau wedi eu catalogio'n barod – a rhai cannoedd yn parhau i'w darllen a'u didoli. Bydd yma drysorfa o wybodaeth ar gael ryw ddydd am gwmni sy'n rhan annatod o'r fro bellach.

### Dewi Glan Teifi

Beth sydd a wnelo bardd o Aberteifi â'r fro hon? Ychydig iawn, am wn i. Ganed Thomas David Jones yn Llanddewi Brefi, ond symudodd i Gaernarfon i fyw – i ardal Penrallt. Priododd â Sarah Elin, merch o Fethesda, ond ganwyd un o'i blant yn Llanberis. Gwn ei fod yn gyfeillgar â'r cerddor Ap Glaslyn, ac yr oedd wedi ei dderbyn i'r orsedd erbyn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1894. Bu farw yn ŵr ifanc ddechrau'r ganrif ddiwethaf, a chladdwyd ef ym mynwent Llanbeblig, Caernarfon. Bu ei wraig yn canu o flaen aelodau'r teulu brenhinol –ac Ap Glaslyn hefyd mae'n bosibl.

Os oes rhywun â chysylltiad teuluol neu unrhyw wybodaeth am y teulu hwn, byddwn yn falch o'u cael.

### Maes Caernarfon

T. Meirion Hughes o Gaernarfon anfonodd wybodaeth am Y Maes – y rhan honno o Gaernarfon sydd wedi bod mor amlwg ym mywydau y rhelyw o drigolion bro'r Eco. Mae'n debyg mai'r Maes oedd y rhan gyntaf o dref Caernarfon i bob un o drigolion (hŷn) y fro ei throedio, oherwydd yno y camai pawb oddi ar fws cyn dechrau ar sgawt o gwmpas yr hen dre'. Ond nid lle gwastad mo'r Maes ar y cychwyn; yn sicr, nid lle a fyddai'n ddiweddarach yn safle addas i 'fysus bach y wlad' ddadlwytho'u cargo dynol o'r gefngwlad. Dyma sut y mae Meirion Hughes yn adrodd yr hanes:

*'Bryn neu fryncyn o'r enw Y Maes Glas oedd yno ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac y mae W. H. Jones yn ei lyfr 'Old Karnarvon' yn ei ddisgrifio fel 'conicle shaped hill with a flat top'. Roedd marchnad lestri yn cael ei chynnal yn wythnosol rhwng godre'r bryncyn a'r castell, ac ar y top fflat cynhelid talyrnau – rhai ymladd ceiliogod.*

*Y Maes Glas oedd yr enw Cymraeg, ond galwai'r Saeson ef yn The Green, a'r hyn sy'n rhyfeddol yw fod y ddau enw wedi eu cadw hyd heddiw. Daeth Y Maes yn enw cyffredin, ond cadwyd y Green hefyd, sef yn enw'r ffordd sy'n arwain o'r Maes i lawr Stryd Tan y Bont am ardal Cei Banc. Yr enw Saesneg arni yw Greengate Street.*

(Parhad ar dudalen 7)


**Wavell Roberts**
CIGYDD
London House
LLANRUG
Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO
Yrŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl BROFFESIYNOL
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch CAR. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava
AA
MOT
RAC
GEMINI
Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad
bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £££ ichwi
ac yn ymestyn oes eich car
AVW
YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764
neu
W. G. Roberts (Wil Korea)
676741



FFENESTRI
DRYSAU
DRYSAU PATIO
PORCHES
BYRDDAU FFASIA
CLADIO
CONSERFATERIS
BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

# PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

**Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref.**

GWELLHAD. Dymunir gwellhad buan i bawb ohonoch sy'n sâl, gan obeithio y bydd dyfodiad y Gwanwyn yn rhywbeth i edrych ymlaen ato. Da deall fod Luke Hughes, Aljen yn gwella wedi'i driniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Cynhaliwyd Sul y Teulu bnawn Sul, 23 Rhagfyr am 2 o'r gloch. Cymerwyd rhan gan athrawon ac aelodau'r Ysgol Sul. Perfformiwyd stori 'Nadolig Lleucu Llygoden' a'r wers i bawb ydyw nad oes neb yn rhy fychan i fod yn bwysig.

Anfonwyd cofion arbennig at Mr Merfyn Jones, Caernarfon oedd wedi edrych ymlaen i weld a chlywed y plant ac i weinyddu Cymun yr Arglwydd. Gobeithio eich bod yn cryfhau Mr Jones wedi'ch llawdriniaeth fawr ym Manceinion.

Fe alwodd Siôn Corn heibio hefyd gydag anrheg fach i'r plant. Gobeithir mynd a'r aelodau i weld pantomeim neu rywbeth o'r fath yn y dyfodol agos.

PRIODAS HAPUS. Dymunir pob bendith i Eurgain Haf a Ioan ar achlysur eu priodas ddydd Sadwrn, 29 Rhagfyr. Y mae'r ddau wedi cartrefu yn Nhreganna, Caerdydd.

Pob hapusrwydd i Sharon a Lyonell Woolly ar eu priodas hwythau ar Sadwrn 19 Ionawr ym Mhenmon. Pob bendith i'r ddau ohonoch.

DIOLCH. Dymuna Eurgain a Ioan ddiolch i'w rhieni, teulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o garedigrwydd a dymuniadau da ar achlysur eu priodas.

POB LWC. Dymunir pob lwc a hapusrwydd i Gwenllian, Caryl, Efa a Iago ar eu menter newydd. Y maent wedi mynd i Seland Newydd am ddwy flynedd yn dilyn gwaith Gwenllian. Ein dymuniadau gorau iddynt.

WEDI GWELD TAIR CANRIF. Ar 28 Rhagfyr 2001, yn dawel yn ei chartref, Meillionydd, yng nghwmni ei theulu, bu farw Mrs Annie Williams a hithau wedi cyrraedd yr oedran teg o 102. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Bessie a Nansi a'u teuluoedd. Bu'r angladd cyhoeddus yng nghapel Bosra am 2 o'r gloch ddydd Mercher, 2 Ionawr ac i ddilyn ym mynwent Santes Helen.

PWYLLGOR NEUADD. Gobeithir cynnal amrywiol weithgareddau eto yn 2002. Diolchir i bawb a gefnogodd y gweithgareddau yn 2001 ac am gefnogaeth aelodau'r Clwb Cant. Hyderir y cawn yr un ymrwymiad eto eleni. Mae croeso cynnes i aelodau newydd i ymuno â'r Clwb Cant am 50c y mis neu £6 y flwyddyn. Mae'r elw yn hwb sylweddol tuag at y gost o redeg y Neuadd Gymuned. Tynnwyd Clwb Cant Ionawr a'r enillwyr oedd 1. Phyllis Elis, Rhos Fair; 2. Ron Hughes, 1 Bryn Hyfryd; 3. Judith Harding, Winllan.

URDD ADRAN BENTREF.
Nos Fercher, 6.30 – 7.30

Cychwynnwyd y flwyddyn 2002 gyda noson ddifyr hefo'r plant yn sôn am eu hoff anrhegion Nadolig.

## Ysgol Sul Bosra



*Offerynwyr dawnus a hudolus yn chwarae cadwyn o garolau yn ystod Sul y Teulu – Sioned, Bethan, Anest a Lois.*



*Nadolig Hapus Lleucu'r Llygoden.*

Yr wythnos ddilynol roedd y plant yn llawn cyffro yn mwynhau gêm 'Chwilair'.

Cafwyd noson dda o 'Gwis' gyda'r timau yn glos iawn.

Yn ystod y tymor gobeithir cael ymweliad gan Paula Owen, Swyddog Diogelwch y Ffyrdd a sgwrs gan aelod o'r Heddlu a chwmni ei gi deallus.

DIOLCH. Dymuna Bessie a Nancy, Meillionydd ddiolch yn gynnes iawn i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl garedigrwydd a'r cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem o golli mam, nain a hen nain annwyl iawn.

Diolch am y llu cardiau, blodau, galwadau ffôn a'r ymweliadau ac am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at y feddygfa a Gofal yr Henoed. Diolch i'r Parchedigion Bryn Williams, D. R. Roberts, Tegid Roberts a Mr Ifan Hefin Williams am eu gwasanaeth ddydd yr angladd ac i Mrs Eiriona Williams, yr organyddes. Diolch arbennig i'r Gofalwyr Cartref am eu gofal tyner a charedig. Byddai mam yn edrych ymlaen at eu gweld a gair o ddiolch iddynt bob amser. Yr ydym yn gwerthfawrogi eu gwasanaeth yn fawr iawn. Diolch hefyd i'r cymdogion am baratoi lluniaeth yn Neuadd yr Eglwys ddydd yr angladd ac yn olaf diolch i'r ymgymerwr Dylan Griffith am y trefniadau gofalus a thrylwyr.



*A dyma, Lleucu'r Llygoden, a fu'n barod i gynnig ei darn o gaws olaf i'r Baban Iesu, Catrin yw'r Llygoden fach ddel yma.*

## CHWILOTA

*(parhad o dudalen 6)*

*Yn dilyn tlodi difrifol wedi Rhyfeloedd Napoleon y penderfynwyd gwastatau'r Maes Glas. Roedd y fasnach lechi ar gynnydd ac roedd angen ymestyn y porthladd. Yr hyn a wnaethpwyd oedd cario'r bryncyn, garreg wrth garreg, dywarchen wrth dywarchen a'u defnyddio i greu sylfaen i'r hyn a alwn ni heddiw yn Gei Llechi. Dyna i chi Gynllun Creu Gwaith mor gynnar â 1817.*

*Bu'r gweithwyr wrthi am rai blynyddoedd yn cwblhau'r dasg, a cheir peth o'r hanes yn llyfr taith Peter Bailey Williams am ogledd Cymru. Llwyddwyd i wneud dau beth pwysig gyda'r un fenter: creu lle gwastad eang a chyfleus yng nghanol y dref, ac ar yr un pryd, ehangu'r porthladd ar gyfer llwytho rhagor o longau. A dyna fan cychwyn Y Maes sy'n adnabyddus i ni heddiw.'*

Byddai'n ddiddorol cael hanes mwy o gysylltiadau bro'r Eco â thref Caernarfon. Eisoes cafwyd cyfres o erthyglau yn y rhifynnau cynnar am y gwahanol gwmnïau bysus a deithiai o'r dref i wahanol bentrefi'r fro. Un rhan o hanes y fro a'r dref na roddwyd sylw iddo o gwbl yw'r fasnach longau. Oedd, roedd nifer helaeth o drigolion bro'r Eco yn berchnogion ar longau hwylio oedd yn teithio i bellafoedd byd. Pwy all roi rhywfaint o'u hanes i ni?

Goebithio y gallaf roi rhywfaint o hanes cynnar Trên yr Wyddfa yn y rhifynnau sydd i ddod, gan gynnwys un cyd-ddigwyddiad go anghyffredin. Yn y cyfamser, os oes angen gwybodaeth neu os oes gennych wybodaeth i'w rhannu, cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn (01286) 673515.


**Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?**

**YSWIRIO EICH TŶ**
(i arbed colled i chi);

**YSWIRIO EICH CAR**
(i arbed colled i chi); neu

**YSWIRIO EICH BYWYD**
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

**Andre (Bethel/Llanberis)**
**Bryn (Môn)**
**Euryn (Caernarfon a'r cylch)**
**John Eifion (Penisarwaun)**

**CDH**

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

**Ffôn: (01248) 355055**



**Royal Victoria Hotel**

**LLANBERIS**

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer

**PRIODASAU • PARTÏON • DATHLIADAU ac ACHLYSURON ARBENNIG**

**CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a PHWYLLGORAU**

**BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL**

**Ffôn: (01286) 870253**

# LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YSGOL GYNRADD LLANRUG
YR URDD. Dechrau'r tymor bu Awen a Wena, Bl 4 yn cynrychioli Sir Eryri yng Ngala Nofio Genedlaethol yr Urdd ym Mangor. Er na ddaeth llwyddiant bu'r profiad yn werthfawr i'r ddwy.

Bu tîm bechgyn 7-bob-ochr a thîm genethod 5-bob-ochr o'r ysgol yn cystadlu yng nghystadlaethau Pêl-droed Sir Eryri yr Urdd. Chwaraeodd y ddau dîm yn galed mewn cystadleuaeth dda iawn.

Nos Wener, 22 Chwefror bydd timau Dawnsio Gwerin a Dawnsio Disgo yn cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. Dymunwn yn dda iddynt.

CABAN HYBU IECHYD. Bu'r caban symudol Hybu Iechyd ar fuarth yr ysgol am ychydig ddyddiau. Cafodd pob disgybl, yr athrawon a rhieni gyfle i ymweld â'r caban a dysgu am gadw'n iach. Roedd y babanod wrth eu boddau yn cyfarfod â Harold y Siraff. Diolch i Mrs Dewi am wneud y cyfan mor ddiddorol.

GWAITH THEMA. Roedd yn ddiwrnod heulog a sych pan aeth disgyblion Bl 1 a 2 ar ymweliad â chastell Caernarfon. Roedd y plant wedi mwynhau'r profiad yn fawr a'r mwyafrif wedi rhyfeddu at faint y castell.

DIOLCHIADAU
Dymuna Stanley ag Olwen Jones, Goledd, Llanrug a Dolbadarn, Llanberis ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y blodau, cardiau a'r anrhegion niferus a dderbyniasant ar achlysur eu priodas ddiamwnt yn ystod mis Rhagfyr. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Hefyd fe ddymuna Mrs Eurwen Williams, Bryn Gro ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd arbennig iawn a ddangoswyd tuag ati ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Daeth y teulu o bob cwr o'r wlad i barti oedd wedi ei drefnu gan y teulu. Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd.

MARWOLAETHAU
Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda theuluoedd Miss Doris Williams, 16 Rhos Rug a Mrs Ceri Owen, Y Foelas (Hafan Elan a Bro Rhyddallt gynt). Trist iawn yw colli dwy o anwyliaid y pentref.

Bu farw tad Mary Roberts, Bedw Gwynion yn 94 oed. Anfonwn ein cydymdeimlad ati hi a'r teulu.

Hefyd at Dafydd a Glyn, Bethan ac Eleri yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl.

BABIS NEWYDD
Llongyfarchiadau mawr i Myfyr a Gwen, Afon Rhos ar enedigaeth Guto Myfyr ar 12 Ionawr. I Phill a Fiona, Glanffynnon ac enedigaeth merch fach, chwaer i Hannah ac i Darren aq Donna, Glanffynnon ar enedigaeth Abigail.

Llongyfarchiadau mawr i bob taid a nain ac i hen daid a nain hefyd.

DIOLCHIADAU. Dymuna Bet, Lyndale, Ffordd yr Orsaf ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati dros dymor y Nadolig ac hefyd ar ei phen-blwydd ddechrau'r flwyddyn. Diolch yn fawr arbennig i'r teulu.

GWELLHAD BUAN. Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan at Mrs Olwen Llewelyn, Pant Afon sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

Hefyd i Mrs Ceri Owen, 5 Ffordd Glanffynnon sydd yn Ysbyty Gwynedd yn derbyn triniaeth.

MERCHED Y WAWR. Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r Sefydliad Coffa gan y llywydd, Megan Roberts. Llongyfarchwyd Eurgain Haf, merch Ann a Dafydd Evans, a Ioan ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Dymunwyd adferiad iechyd buan i Olwen Llywelyn.

Bu nifer o'r aelodau yn cymryd rhan yn y Gwasanaeth Plygain yn Eglwys y Santes Fair nos Sul, 20 Ionawr. Diolchwyd i Mrs Beryl Thomas am gynrychioli'r gangen mewn gweithgaredd noddedig a drefnwyd gan aelodau Pwyllgor yr Anabl.

Y gŵr gwadd oedd y Parch Harri Parri a threuliwyd orig ddifyr dros ben yn gwrando arno'n sôn am fywyd a gwaith Elen Roger Jones. Diolchodd Eryl Roberts i Mr Parri am noson hynod o ddiddorol. Heulwen, Phyllis, Myfanwy ac Ann fu'n paratoi'r baned a Mrs Whiteside Thomas enillodd y raffl.

Dr Berwyn Owen fydd y gŵr gwadd yn y cyfarfod a gynhelir ar 12 Chwefror, a'i destun fydd 'Pils a Crîm'.

CAPEL Y RHOS. Bore Nadolig cynhaliwyd gwasanaeth yng Nghapel y Rhos dan arweiniad y gweinidog gyda rhai o'r aelodau yn cymryd rhan. Yr oedd plant yn bresennol hefyd ac wedi dod ac anrheg gyda hwy i'w ddangos i'r gynulleidfa. Yr organyddes oedd Mrs Mair Huws.

Nos Lun cyntaf y flwyddyn newydd, yn ôl yr arfer, cafwyd Cyfarfod Gweddi Undebol bendithiol iawn gyda chynrychiolaeth o Eglwys St. Mihangel, Capeli Hermon, Bryngwyn a Chapel y Rhos ynghyd â'r Parch Dafydd Hughes yn cymryd rhan.

PLAID CYMRU. Daeth Dafydd Iwan i gyfarfod y gangen nos Fercher, 16 Ionawr a chawsom agoriad llygad wrth ei glywed yn sôn am waith Cyngor Gwynedd. Er gwaethaf y system gabinet a orfodwyd ar y cyngor gan y Blaid Lafur, roedd Cyngor Gwynedd yn ceisio cadw llywodraeth leol yn agos at y bobl. Pwysleisiodd mai'r amcan oedd llywodraethu'n agored, yn atebol i bobl Gwynedd, ac yn effeithiol. Cafwyd adroddiad ffafriol iawn am y Cyngor mewn adolygiad diweddar ar waith y cynghorau.

Anfonwyd dymuniadau gorau'r gangen i Olwen Llywelyn sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd, a'n cydymdeimlad dwysaf i John Meirion a Gwawr Morris yn eu profedigaeth fawr o golli Dylan.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, 20 Chwefror am 7.30 yn y Sefydliad Coffa. Ceir sgwrs gan y milfeddyg Trefor Jones o Chwilog, un o weithwyr ffyddlonaf y Blaid yn yr etholaeth, a bydd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod.

Bydd braidd yn hwyr arnom yn dathlu Gŵyl Ddewi eleni, sef nos Wener, 22 Mawrth. Yr Aelod Seneddol, Hywel Williams fydd y gŵr gwadd yn y Bistro, Llanberis. Felly cawn ddwy wledd. I sicrhau lle cysylltwch â Phyllis Elis (870237) neu Meirwen Lloyd (675359).

Peidiwch gori ar Stori – anfonwch hi i'r *ECO*

Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
Bob nos Fercher tra bod effaith y Clwy Traed a'r Genau'n parhau: **2 BRIF GWRS** am **BRIS Y PRYD DRYTAF**
Mwyafrif o 6 ar gyfer pob bwcin

EMYR JONES
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616


IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484
➤ Bysiau o 12 i 53 sedd
➤ Teithiau Lleol a Thramor
➤ Gwaith Contract
➤ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

antur WAUNFAWR
Cynllun Dodrefn
*Mae'r Cynllun yn brin o gyfraniadau* ***nwyddau trydanol,*** ***yn arbennig poptai, oergelloedd,*** ***peiriannau golchi a rhewgelloedd fyddai'n*** *addas i'w cleientau ar incwm isel*
*Gwasanaeth casglu rhad ac am ddim*
☎ 01286 674 155
www.anturwaunfawr.org
ANTUR WAUNFAWR

J.M. JONES A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael –
Ffôn: (01286) 672898 (dydd) 676285 (nos)

## Sioe Geffylau ym Mryn Derw




*Kirsty a Brynteg Lad tu allan i fyndefa Parc Cartrefi Gwyliau Brynteg.*


Ar Sadwrn 2 Rhagfyr cynhaliwyd Sioe Neidio Ceffylau Gogledd Cymru dan reolau'r BSJA yn fferm Bryn Derw, Brynrefail, drwy garedigrwydd Lesley a Llystyn Griffith. Daeth cystadleuwyr ifanc o bob rhan o'r gogledd i gystadlu am wobrau niferus.

Un o noddwyr y sioe oedd Parc Cartrefi Gwyliau Brynteg. Roedd yn addas iawn, felly, mai dwy o'r enillwyr oedd Kirsty a Tara Chambers yn marchogaeth eu ceffylau *Brynteg Lad* a *Brynteg Caramel Cream*.

Cafodd Kirsty gryn lwyddiant yn y categori i blant dan 12 oed. Hi, ar ei cheffyl 128 cm, oedd yr unig un i gwblhau'r cwrs ddwywaith heb golli marc. Enillodd dlws, sash, roset dyn eira ac arian. Roedd yn arbennig o falch gan mai dyma'r tro olaf iddi fedru marchogaeth *Brynteg Lad* am y bydd yn fuan wedi tyfu'n rhy fawr i'w reidio. Neidiodd ei chwaer Tara yn dda iawn hefyd ar *Brynteg Caramel Cream* ond, yn anffodus, disgynnodd polyn yn ei rownd derfynol a gorffennodd Tara'n drydydd anrhydeddus yn yr adran i newydd-ddyfodiaid.

Roedd trefniadau'r dydd yn effeithiol dros ben ac edrychir ymlaen am ragor o ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol.


## DIRGELWCH CEFN DRUM




*Cynllun o'r safle ar ysgwydd Cefn Drum.*



*Yr olygfa o'r graig faluriedig draw at y ffens (Moel Cynghorion a'r Wyddfa yn y cefndir).*



*Edrych tua'r graig faluriedig, wyneb y tir wedi ei grafu, a naddion cerrig ar wasgar ar lawr (Moel Eilio yn y cefndir).*

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING MACHINE CENTRE**
**21 Stryd Fawr PORTHAETHWY**
Ffôn: **(01248) 714043**
neu **Caernarfon**
Ffôn: **(01286) 674520**
Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

**SPAR**
**Y STORFA LLANRUG**
**(Richard a Meirwen Williams)**
**Ffôn: (01286) 672790**
Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth
**Nid oes unrhyw dâl am ddanfon archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug**

**SNOWDONIA PARC**
**WAUNFAWR**
**•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant**
**• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol**
**• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn**
**Ffôn: 650218**

**GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI**
**BRYNGWYN**
**Glanhau i fusnesau a chartrefi**
**Keith Rees Hughes**
**1 Cae Newydd, Llanrug**
**(01286) 674416 neu (07880) 847161**

# YSGOL BRYNREFAIL



*Liz Perkins o Gymorth Cristnogol yn derbyn siec o £150 oddi wrth ddisgyblion Ysgol Brynrefail.*

## Gwasanaeth Nadolig

Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig Ysgol Brynrefail yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis nos Lun, 17 Rhagfyr 2001. Cafwyd amrywiol eitemau cerddorol ar lafar o safon uchel, yn gosod naws bwrpasol, gan ategu prif neges y gwasanaeth eleni, sef heddwch. Gwnaethpwyd casgliad ar ddiwedd y gwasanaeth ar gyfer gwaith Cymorth Cristnogol gyda phlant a phobl ifanc Calcutta ar y cyd gydag Urdd Gobaith Cymru.

Llongyfarchiadau i'r disgyblion a diolch i bawb am eu cyfraniad gwerthfawr.

## Tystysgrifau Ymdrech 7N



Bellach mae disgyblion bl.7 wedi derbyn eu hadroddiadau cyntaf yn Ysgol Brynrefail ac, yn ôl yr arfer, cyflwynwyd tystysgrifau i'r rhai oedd wedi gwneud ymdrech ardderchog.

Da iawn 7N am wneud mor arbennig, gyda mwyafrif y dosbarth yn derbyn tystysgrif. Daliwch ati.

Dyma oedd gan rai ohonynt i'w ddweud:

'Rydw i a fy nheulu'n hapus iawn hefo'r dechrau da yma.'

Taryn, Louise, Anna, Siôn a Ceri.

'Rydw i'n hoffi Ysgol Brynrefail ac rwyf wedi cael tystysgrif am wneud fy ngorau glas,' meddai Emma Wyn Jones.

Mae Mererid mor falch mae am 'Wneud fy ngorau i gael un arall. Ein dosbarth ni oedd wedi cael y mwyaf o dystysgrifau ym mlwyddyn 7.'

'Gobeithiaf am un arall y tro nesaf,' ddywedodd Ffion.



*Mae Ceri Jones (Bl.10) ac Alaw Ceris (Bl.9) wedi eu dewis i chwarae pêl-rwyd i Eryri (sef Môn, Gwynedd a Chonwy). Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch.*



## Ryan a'r Digeridoo

Bu Ryan Roberts (bl.9) a'i frawd Geraint (bl.10) yn brysur iawn yn hel tocyns i gael anrheg tra gwahanol.

Roedd Ryan yn adnabod rhywun oedd yn gallu chwarae'r offeryn yma ac roedd am gael siawns i wneud yr un peth.

Mae Rolff Harris yn fyd enwog am chwarae'r digeridoo ac yn wir efallai y bydd Ryan yn profi'r un llwyddiant rhyw ddydd. Edrychwn ymlaen i'th glywed yn perfformio, Ryan!


**CEIROPODYDD**

Mrs S. Groom MSSCh, MBChA

Yn ymweld â'ch Cartref i drin traed

**Triniaeth ar gyfer:**

Traed Poenus; Croen Caled; Verrucae; Cyrn a Chroen Caled; Ewinedd yn tyfu i'r byw; Torri Ewinedd; Gofal a Thylino Traed.

Ffôn: **(01248) 605450** neu **07747 696267** (symudol)



**GORS BACH PANEL BEATING SERVICE**

yn LLANRUG

***ar gyfer eich holl anghenion***

- **Trin cyrff ceir**
- **Gwaith Mecanyddol**
- **Gwasanaeth/Service**
- ***Valleting***

**(01286) 870814**

## Parti Pendalar

Buan iawn y daeth 19 Rhagfyr y llynedd, sef pinacl ein holl baratoi ers misoedd, diwrnod Parti Pendalar.

Ein nod oedd llwyddo i gasglu digon o arian i sicrhau llwyddiant y parti unwaith eto. Nid tasg hawdd oedd hon o ystyried partïon y gorffenol!

Ar ôl nifer o gyfraniadau hael gan fusnesau lleol ynghyd ag ymroddiad y 6ed llwyddom i gasglu bron i £2,000.

Hoffem ddiolch yn arbennig i Safeways yng Nghaernarfon a'r myfyrwyr a aberthodd eu dydd Sadwrn yn casglu arian yno.

Yn sicr byddai bwlch mawr yn y parti heb yr enwog Dafydd Iwan a berfformiodd rhai o'i ganeuon gyda help disgyblion Pendalar.

Seren arall y diwrnod oedd Iwan 'Trombôn' Williams, sori Siôn Corn, oedd yn digwydd bod yn yr ardal y prynhawn hwnnw!

Bu disgyblion Pendalar yn ffodus iawn o gael eu anrhegion yn un darn o ystyried y trip a gafodd myfyrwyr y 6ed gyda Mr Harri Jones yn y bws mini i nôl yn anrhegion o Fangor!

Roedd y mwynhad amlwg ar wynebau disgyblion Pendalar a myfyrwyr y 6ed yn brawf pendant i ni o lwyddiant y parti.

Hoffai'r ddwy ohonom ddiolch i fyfyrwyr y 6ed am eu cefnogaeth i greu parti bythgofiadwy.

Kate Bears a Ffion Owen

Hoffem ddiolch i'r cwmnïau a'r busnesau canlynol am eu cyfraniadau hael. Mae'r rhestr yn un faith, felly ymddiheurwn os ydym wedi gadael unrhyw un allan.

LLANRUG:
Spar; Swyddfa Bost; SOS; Elaine's; Wavells; Garej Hafod; Pryd i Bawb; Londis; J.M. Jones a'i Feibion.

BETHEL:
Swyddfa Bost; Siop Treflyn Stores; Merched y Wawr.

DEINIOLEN:
Bull Inn; Swyddfa Bost; Swyddfa Bost; Wellington Inn; Garej Beran; Jones Glass; Premier; Clinic; Ieuan Williams; Al's Cabs; Hefin a Carolyn Cabs.

CWM-Y-GLO:
Menter Fachwen; Garage Neil; Dragon Motors; Becws.

LLANBERIS:
Lake Side; Gareth Maelog Pet Shop; Snowdon Honey Farm; Joe Brown; Energy Cylles; Caxton House; Pete's Eats; Prince of Wales; Padarn Lake; Swyddfa Bost; Formag; Becws Eryri; Victoria Hotel; Euro DPC; Spar; Outsider; Cae Coch; Odyn Copor; Dolbadarn; Snowdon Garage.

CAERNARFON:
HSBC; ASG Sports; Boots; Cheltenham & Gloucester; Hughes Meats; Nat West; Abbey National; Safeways.

PENISARWAUN:
Blodau Racca.







## R.G. ELLIS
### 1912-2001

Fis Tachwedd y llynedd bu farw un o gyn-athrawon Ysgol Brynrefail, Robert Gwynedd Ellis, yn 89 mlwydd oed. Ei gartref am ran helaeth o'i oes oedd Ty'n Hendre ger Tal-y-bont, lle roedd ei frawd Owi yn ffermio. Disgleiriai fel disgybl yn ysgolion Llandygái, Bethesda a'r Friars, gan ennill ysgoloriaeth i'r brifysgol ym Mangor a graddio mewn ffiseg. Wedi swyddi yn Romford a Phenmaen-mawr, fe'i penodwyd yn athro yn Ysgol Sir y Bermo yn 1939. Yn 1940 gadawodd i wasanaethu gyda'r awyrlu, yn bennaf yn yr India. Wedi'r rhyfel dychwelodd i'r bermo, cyn symud yn 1952 fel darlithydd i Ogledd Iwerddon i goleg hyfforddi athrawon.

Sefydlwyd Ysgol Brynrefail yn Llanrug yn 1956 a phenodwyd Gwynedd Ellis yn bennaeth yr adran ffiseg. Buan y dangosodd ei fod yn athro medrus ac yn gymeriad hoffus a siriol. Fe ddaeth yn y man yn ddirprwy-brifathro.

Yn 1977 ymddeolodd wedi gwasanaeth o 21 mlynedd yn Ysgol Brynrefail, yn parhau yn rhyfeddol o egnïol a bywiog ei feddwl a'i osgo ar derfyn ei yrfa. Mwynhaodd ymron i chwarter canrif o gyfnod ymddeoliad, a'i sgwrs a'i holi craff, byrlymus yn adlewyrchu diddordeb a gwybodaeth eang.

Roedd mewn ysbryd diolchgar yn yr ysbyty yn dilyn codwm ar y stryd. Dangosai gonsýrn dros eraill yno, yn gleifion ac ymwelwyr, ar waethaf ei bicil ei hun. O'r ysbyty gallai weld rhai o'i hoff fynyddoedd. Crwydrodd lawer arnynt yn ei amser, a bu ar un adeg yn mynydda o ddifrif gan gynnwys dringo'r Matterhorn.

Bu ar un cyfnod yn ysgrifennydd cangen Gwynedd o'r Gymdeithas Multiple Sclerosis. Dioddefodd ei chwaer Edith o'r clefyd creulon hwnnw ers blynyddoedd.

Y person allweddol yn ei fywyd am oddeutu 37 mlynedd oedd Eirlys. Bu blynyddoedd o deithio rhwng y Garth a Chyffordd Llandudno i'r naill, a Thy'n Hendre a Brynrefail i'r llall. Un mlynedd ar ddeg yn ôl daethant yn briod a chartrefu yn Almora, Bro Emrys, Tal-y-bont. Yn eglwys Maes-y-Groes, Tal-y-bont ddeufis yn ôl diolchwyd am fywyd Gwynedd Ellis a chydymdeimlwyd â'i weddw, Mrs Eirlys Ellis, a'i chwiorydd a'u teuluoedd. Cafodd oes faith ac amrywiol, a gwnaeth ei ran i roi sylfaen gadarn a graenus i Ysgol Brynrefail ar ei newydd wedd yn Llanrug.

# Cannwyll Fy Llygaid

**Yn Eisteddfod Gwaun Gynfi daeth Jeni Lyn Morris yn agos iawn i'r brig yng ngystadleuaeth y Fedal Lenyddol i rai dan 21 oed gyda'r portread yma o Haf Thomas, ei chyfnither o Lanrug. Roedd y beirniad Selwyn Griffith yn awyddus iawn i'r gwaith ymddangos yn yr Eco.**

Pum munud i bump. Brynhawn Iau. Cyngor Gwynedd.

'Pnawn da! Adran Bersonel Cyngor Sir Gwynedd, alla i'ch helpu chi?'

Cyfarchiad siriol, didwyll, cyn byseddu'n ddeheuig a chymell y sawl ar y lein hyd yr estyniad cywir. A'r ffôn yn ôl yn ei grud, cwyd y dderbynwraig a hel ei phac cyn cilio o'r gwres synthetig i ffresni'r gwanwyn yn y Gogledd. A'i gwynt yn ei dwrn â i'w noddfa wythnosol, i ymlacio yng nghynhesrwydd y pwll nofio.

Dyma'i hail gynefin. Er pan yn fychan, dengys ddawn gynhenid yn y dŵr, ac yn ddiffael â i nofio i Blas Menai bob nos Iau. Petai hi'n dri o'r gloch y bore, byddai Haf yn achub ar y cyfle i gael mynd i'r pwll. Ond mae ceisio ei chael hi i ddod allan ohono fel cael gwaed allan o garreg. Yn amhosibl! Nid yw o bwys faint y plediwch arni, ni ddaw allan. Gall fod yno yn nofio'r pwll am oriau diflino. Daeth ei dawn â sawl gwobr iddi yn y gorffennol. Enillodd dim llai na phedair medal aur a thair medal arian yn y gemau i bobl anabl.

Yn ddiweddar defnyddiodd ei dawn yn y dŵr i nofio'n noddedig ar gyfer Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Bu'n ddiwyd yn casglu arian ac yn ymarfer at y noson fawr am wythnosau maith. Llifodd yr arian i mewn i'r gronfa a Haf yn cael gwneud yr hyn y mae hi wrth ei bodd yn ei wneud, helpu eraill. Ond nid drwy nofio'n unig mae hi wedi casglu arian. Ei dull arall o godi arian ers rhai blynyddoedd yw cynnal Cyngerdd Nadolig yng nghyntedd y Cyngor Sir. Bydd wrthi'n ddiwyd am wythnosau lawer yn paratoi at yr awr fawr, yn darparu gwahanol eitemau ac yn gwneud yn siwr fod y mins peis yn barod mewn pryd. Caiff pawb wledd o ganu. Ond yn bwysicach fyth oherwydd ei hymroddiad i helpu eraill, elwa nifer o achosion da o'i gwaith caled, megis Tŷ Gobaith ac UNICEF, i enwi dim ond dau.

Nid trwy gasglu arian yn unig y bydd hi'n arddangos ei charedigrwydd. Yn ddi-os bydd ganddi lond ei hafflau o felysion pan ddaw draw i weld y teulu. A phan ddaw hi drwy ddrws y tŷ, bydd y llais bychan annwyl yn gweiddi:

'Ma Siôn Corn 'di cyrraedd!'

Ond yn wahanol i Siôn Corn mae Haf yn berson go iawn ac nid oes angen aros blwyddyn i dderbyn yr anrhegion, oblegid bob tro y'i gwelaf teimlaf fy mod yn derbyn anrheg. Yn wahanol i anrhegion y Nadolig, ni flinaf arni hi, a darganfyddaf rhyw nodwedd unigryw ynddi bob tro y'i gwelaf.

Rhaid mynd yn ôl ddeuddeng mlynedd i'm cof cyntaf o Haf. A minnau yn bump oed ar y pryd, roedd y ddwy ohonom yn mynd hefo Yncl Irfon i fwydo'r ieir, neu'r 'iârs', chwedl Haf! Ac yna wedi'r dasg honno, bwydo'r plant, sef y ddwy fabi dol, a chogio bod y ddwy ohonom yn famau annwyl a thyner i'r ddwy oedd dan ein gofal. Ac yna, gofalu fod yna rywbeth i'r dynion wedi iddynt ddychwelyd o'r gwaith, a'r ddwy ohonom wrthi'n ddygn drwy'r prynhawn yn paratoi teisen fwd! Plant at blant medden nhw, ond nid plentyn mohoni. Yr oedd hi'n ddwy ar bymtheg oed, yn ddigon hen i yrru, yn ddigon hen i briodi ac yn ddigon hen i gael plant. Ar y pryd fe'i hystyriwn fel fy ffrind gorau, yn berson y gallwn ddibynu arni, yr unig berson y gallwn gael sgwrs gall â hi, ond yr oedd deuddeng mlynedd rhyngom. A minnau nawr yn ddeunaw oed, cywilydd i mi fuasai cael fy ngweld yn chwarae â babi dol, neu'n eistedd ym mhen draw'r ardd yn gwneud teisen fwd, ond eistedd y fabi dol hyd heddiw ar wely Haf. A'r rheswm? Un o reddf plentyn ond o oed dynes yw Haf.


Mae'n bantomeim o gymeriad! Nid fod hynny'n poeni dim arni hi! Ni fydd yr un eiliad ddiflas yn ei chwmni. Bydd hi wastad yn canu neu'n dawnsio neu'n actio a phob Nadolig fe gyfuna'r holl bethau hyn i wneud un wledd fawr Nadoligaidd yn ei thŷ. Ond nid ar ei phen ei hun y bydd yn perfformio. Oddeutu fis cyn y Nadolig bydd y ffôn yn sicr o ganu yn ein tŷ ni, a Haf fydd yno yn gofyn i'm brawd actio yn ei phantomeim blynyddol. Ac yn ddieithriad byddwn yn gorfod mynd i dŷ Haf, fi, fy mam a 'nhad i fod yn rhan o'r gynulleidfa. Er mai peri chwerthin yw nod pantomeim, deigryn o hapusrwydd a balchder fydd yn llygaid pawb yn y sioe arbennig hon wrth weld y ferch dalentog yn perfformio mor broffesiynol ar lawr y lolfa. Pe na bai nam ar ei chromosomau, rydw i'n sicr y byddai'n un o sêr S4C.

Nid oes yr un pantomeim heb ei dro trwstan. Ac nid yw pantomeim bywyd bob dydd Haf yn brin o ambell dro annisgwyl. Fe'm hatgoffwyd o'r creadur anffortunus Mr. Bean un tro. Amlygodd dau o'i gwendidau mawr ar yr achlysur hwn: ei hanallu i gofio a'i thueddiad i droi tasg fechan syml yn orchwyl fawr. Un noson yr oedd hi adref ar ei phen ei hun ac fe gafodd y dasg o ofalu fod yr ieir yn cael eu bwydo. A hithau'n gorwedd o flaen y tân yn mwytho'r holl foethusrwydd penderfynodd gael bath, ac yna newid i'w dillad nos. Yn sydyn cofiodd am yr ieith llwglyd.

'Creaduriaid bach! Mi fyddan nhw 'di llwgu i farwolaeth!' oedd ei hymateb.

Felly i ffwrdd â'r bwten fach, gwta bum troedfedd, yn fân ac yn fuan yn ei welintons a'i choban ar draws y cae ac ambell glawdd, gan afael yn dynn yn y can dŵr! Heb iddi fod yn gwybod roedd ambell dwll dirgel yn y cae. Disgynnodd yn bendramwnwgl i un o'r rheini a gwneud tin dros ben yn ei hymdrechion i achub y can dŵr! Cafodd ei hail fath y noson honno a chafodd ei chymydog ar draws y ffordd bantomeim chwerth chweil! A dyna pryd yr esgorwyd ar y llinell enwog sy'n ddihareb hyd heddiw ganddi, 'Chwerthwch chi, fedra i ddim!'

Un nodwedd arall sydd ganddi yw'r modd y gall wneud i'r haul dywynnu ar unrhyw amser niwlog. Yn botel o donic

GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

Gwynedd Hotel
& Restaurant
Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau, bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant – disgo a.y.y.b.
Bwrdd Pŵl ar gael
Bwydlen Bar a Restaurant
Trwydded lawn tŷ tafarn.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: (01286) 650291

Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher



Dewis eang
o Welyau a *3P/Suites*.
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc – allwch chi
fforddio prynu o batrymau?
GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

STEPHEN JONES
Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco
(01286) 870 870
(01286) 872 491
(07770) 265 976
Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol

byddwch wastad yn hapus yn ei chwmni, a'r 'Haf' yn cynhesu'r holl deimladau oeraidd.

Bydd wastad yn cerdded i fyny'r stryd yng Nghaernarfon, a'i phen yn y gwynt yn canu rhyw gân hapus ac yn cyfarch hwn a'r llall. Weithiau bydd hi'n aros i gael sgwrs gydag ambell un. Ond yr hyn sy'n fy synnu'n fwy na dim yw'r modd y gall hi gynnal sgwrs â dieithriaid llwyr, ond eto mae'r dieithryn yn adnabod Haf. Pe gofynnech iddi pwy oedd y dieithryn, fe ddywed,

'Fy ffrind i'n de!'

Pe baech yn mynd a Haf i bellafion Tsieina, ni fuaswn yn synnu petai rhywun yn ei hadnabod yno! Ydi, mae pawb yn adnabod Haf. A chredaf mai oherwydd ei hanwyldeb a'i chyfeillgarwch y mae hi mor boblogaidd: 'O na fyddai'n Haf o hyd.'

Nid yw'n un a ddywed 'na' wrth sialens, ac yn ddiweddar rhoddodd gynnig ar sialens newydd, a darganfu un o'i thalentau cudd yn y fargen.

Bob nos Iau bydd hi'n llithro i fyd y cowbois, ond nid cowbois Texas na chowbois Crymych, ond cowbois unigryw Penisarwaun. Taerech ei bod wedi ei geni â het gowboi am ei phen a bwts am ei thraed, a bellach mae 'Yee Ha!' yn air hanfodol yn ei geirfa. Ni fu'n hir yn setlo yng nghanol y dawnswyr ac, ymhen dim, yr oedd hi cystal os nad gwell na'r rhai mwyaf profiadol yno. Er bod dawnsio llinell yn dod yn rhwydd iddi, cymer gryn biti dros y rhai newydd a ymuna hefo'r criw.

Un noson yr oedd un gŵr mentrus wedi dod yno i ddawnsio a Haf yn ceisio ei gusuro. Fe safodd ar ei thraed a datgan yn ei ffordd unigryw ei hun o flaen yr holl griw,

'Ma' Sel yn newydd yma heno, felly 'dwi am i chi roi bob chwara' teg a pharch i'r hogyn, achos nid peth hawdd ydi dawnsio llinell. Croeso ata' ni Sel, a sticia efo fi a fyddi di'n iawn!'

Ac yno mae Sel yn selog bob nos Iau ers hynny yn dawnsio, dawnsio wrth ochr Haf.

Un a wefreiddiwyd ganddi oedd Wendy Richards o Bontardawe. Pan ymddangosodd Haf ar raglen deledu hefo Richard Morus Jones yn cynrychioli Ysgol Pendalar gwelodd Wendy Richards hi ac fe'i henwebwyd am deitl 'Cymraes y Flwyddyn' ar raglen Hywel Gwynfryn, 'Helo Bobol'.

Pan glywodd ei bod wedi ennill y teitl nid oedd dim yn y byd yn mynd i ddwyn y wên oddi ar ei hwyneb. Yr oedd yn byrlymu o hapusrwydd a balchder, ond gyda phob broliant yr oedd yn mynd i'w gilydd i gyd fel petai cywilydd arni, ond eto gwn yn ddistaw bach ei bod yn mwynhau'r holl ganmoliaeth. Ond yr hyn oedd yn fy synnu oedd y modd yr oedd Haf wedi dylanwadu ar ddieithryn llwyr ym mhen arall y wlad. Ydi, mae'n un o fil.

Â'i chroen yn rhychiog dan ddylanwad y dŵr, ei bysedd yn grebachlyd blentynaidd, ymlwybra'n fodlon tua'r ystafell newid, wedi '*swim* dda', chwedl hithau. Yn ei chôt 'Mega' gedy ffug gynhesrwydd y ganolfan hamdden i ledaenu ychydig o'i chynhesrwydd personol ar y rhai sy'n ddigon ffodus i fod yn rhan o'i bywyd. Ystyriaf fy hun yn un o'r ffodusion hynny. Hi yw cannwyll fy llygaid.

# Tro'r Draenog yn Trier

Yn y ddau rifyn diwethaf o'r Eco cafwyd adroddiad am drip Côr Meibion Dyffryn Peris i'r Almaen. Heb yn wybod i'r côr fe ymunodd y draenog â'r daith a dyma ddetholiad o'i albwm lluniau.



*Gareth Thomas o Lanrug (y swyddog sy'n gyfrifol am ddillad y côr) wedi gadael ei dei adref yng Nghymru. Bu'n rhaid iddo dreulio'r bore yn chwilio drwy siopau Trier am dei oedd yn debyg i dei y côr. Dyma'i lun gyda'r tei newydd trawiadol!!*



*Aneuryn wedi archebu gormod o frithyll yn y gwesty ble cawsom ginio un diwrnod. Nid oedd am ei wastraffu felly fe roddwyd y pysgodyn oedd dros ben ar blât iddo i'w ail-dwymo i swper.*

*Nid yw'n wir mai brithyll sydd yn lle twrci ar fwydlen cinio Nadolig gwesty Dolbadarn eleni.*



*Sgil-effeithiau'r gwin ynteu'r siwrne boeth, hir yn y bws!*



*Effaith y côr ar un dafarn yn Berkanstel. Dyma'r poteli a wagwyd mewn dwy awr gan y côr (67 yn ôl y cyfrif). Roeddwn i'n meddwl mai mynd yno i ganu oedd y côr.*



*Swydd newydd i'r cyn-brifathro. Waiter mewn bwyty Eidalaidd!*


**Am Offer Tŷ a Gardd...**

**FORMAG**

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

**Alwyn a Sarah Jones**
BLODAU
**RACCA**
PENISARWAUN

Blodau ar gyfer pob achlysur
Dewis da o Lysiau Fferm
Wyau *Free Range*
Ar agor saith diwrnod
**870605**



Danfon 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro

# BETHEL

**Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726**

**Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115**



PRIODI. Dydd Sadwrn, 18 Rhagfyr 2001, yng Nghapel y Cysegr, priodwyd Llinos Angharad Morris, Perthi â Gareth Owen, Cwm Cloch, Beddgelert. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r ddau.



TAD A MAB YN GRADDIO. Llongyfarchiadau i Irfon a Raymond Jones, Sycharth gynt ar eu llwyddiant diweddar ym Mhrifysgol Otago, Dunedin, Seland Newydd.

Llongyfarchiadau i Raymond ar ennill diploma ôl-radd mewn Informatics Iechyd ac i Irfon ar ennill gradd BSc gyda anrhydedd mewn Daearyddiaeth. Mae Irfon hefyd wedi ennill ysgoloriaeth i ddilyn cwrs PhD.

DIOLCHIADAU. Dymuna Llinos Angharad a Gareth Pennant Owen, Fron Heulog, Beddgelert ddiolch o galon i bawb am ddiwrnod arbennig, ac am y llu anrhegion a dymuniadau da a gawsant ar achlysur eu priodas ar 15 Rhagfyr 2001.

MERCHED Y WAWR. Cyfarfu'r gangen nos Fercher, 9 Ionawr yn yr Ysgol Gynradd dan lywyddiaeth yr Is-lywydd Bet Owen yn absenoldeb y Llywydd, Mair Read. Croesawyd a dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i'r aelodau. Llongyfarchwyd Llinos Angharad, merch Lynnwen Morris ar ei phriodas â Gareth a hefyd Margaret Williams ar ddod yn nain i Thomas David. Cydymdeimlwyd â Bet Owen yn ei phrofedigaeth o golli ei mam.

Y wraig wadd oedd Morfudd Thomas a roddodd sgwrs ddifyr a diddorol gyda chymorth sleidiau ar ei thaith i Nepal. Diolchwyd iddi gan Glenys Griffith. Paratowyd y te gan Nora a Sheila ac enillwyd y raffl gan Sheila. Mis nesaf ceir 'Gwledd i'r Llygaid a'r Glust' yng nghwmni Terry Carpenter.

CLWB BRO BETHEL. 4 Rhagfyr. Cafwyd pnawn difyr iawn yn canu carolau o dan arweiniad Mr a Mrs Siencyn Griffith. Darllenodd Mr Selwyn Griffith bennill oedd wedi ei wneud am Affganistan a diolchwyd iddynt gan Mr Goronwy Jones. I orffen y pnawn cafwyd paned a mins pei, rhodd gan Mr Alwyn Morris, becar Cwm-y-glo. Diolch yn fawr, Alwyn.

11 Rhagfyr. Cawsom ginio Nadolig ardderchog yn y Bedol, gyda llawer o ddiolch i Mr a Mrs JKohnson, roedd pawb wedi mwynhau'r parti.

Dymuna'r Clwb ddiolch am y rhoddion oddi wrth y Manager a Staff Tesco, Caernarfon; Mr Alwyn Morris, Cwm-y-glo; Clwb Pêl-droed Bethel; Herbs Bangor; Huw P. Hughes (Cynghorydd); Ceir Cymru; Treflys Stores; Post Office; Menai a Mair, Caernarfon; Alice, Maud, Ivy Ann a Nerys, Bethel. Diolchwyd i bawb gan Mr Trefor Williams.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Fawrth, 15 Ionawr yn Festri Bethel cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Brenda Wyn Jones, Tregarth yn sôn am Streic Fawr y Penrhyn ac yn arbennig ar effaith y streic ar y gwragedd a'r plant. Cyflwynwyd Mrs Jones, sy'n awdur nifer fawr o lyfrau,(mae un ohonynt *Bwli a Bradwr* wedi ei seilio ar gyfnod y Streic), gan Mrs Glenys Griffiths a diolchwyd iddi ar ran y Gymdeithas gan Mrs Llinos Williams.

**Er cof am Goronwy Owen, Cremlyn, Bethel**

I'n hardal, daeth hen alwad  
Yn fis Gŵyl, o faes ei gad.  
Galw wnaeth un gaeth i gur  
Un distaw yn ei dostur.  
A'i gap ar hoel, ei gipio  
A danfon Gron, draw i'r gro.  
Hywel, Phyllis, tawelu;  
Agor twll, a gwagio'r tŷ.

Er ei fynd, y mae'n parhau,  
I'w Fethel, rhoddodd fwythau.  
Fe fu'n adwy, trwy sawl trai  
Yn fantell glud i fintai  
Mae'n aros 'mhob ffos a ffin  
O gerrig, mewn tir gerwin.  
Un bwlch fydd, o ddydd i ddydd  
Na lenwir gan olynydd.

RLJ

# O'r Rafn, i fyd yr ofnau

Yn sicr, dyna yw'r amrediad profiadau yn y llyfr *O'r Rafn i Rangoon*. Mae'r awdur yn un cyfarwydd iawn i ni ym Mro'r Eco, sef Jack Foulkes, gynt o Lanberis ac yna'n ddiweddarach, o Fethel. Ac yntau'n nesau at ei ben-blwydd yn 80 oed teimlai Jack fod y bywgraffiad yma wedi bod yn corddi o'i fewn ers blynyddoedd. Yn sicr, mae ganddo stori i'w dweud, a chyflwynir hi mewn arddull ddarllenadwy iawn.

Hanes taith, galwad a datblygiad 'hogyn bach o'r wlad' mewn cyfnod cythryblus a geir rhwng y cloriau. Gwelwn ei ddatblygiad o un â diddordeb plentynaidd mewn awyrennau, i un â'r dasg bwysig o gynnal awyrennau yn ystod blynyddoedd yr Ail Ryfel Byd.

Y Rafn yw fferm ei blentyndod yn Llandegla, pentref yn llechu ar y ffordd o Gorwen i Goedpoeth a Wrecsam. Cawn ddilyn ei daith yn y confoi ar fwrdd yr *Athlone Castle*. Awn drwy brofiadau nerfus y fath deithio yn y cyfnod hwnnw. Y daith i Bombay, ac yna ymlaen i Rangoon yn Burma. Dyma ardal y frwydr erchyll yn erbyn y Siapaneaid. Cawn ailfyw ofnau Jack yn llechu oddi wrth y bomio o'r awyr ar Rangoon. Teimlwn y pwysau cynyddol arno ef a'i gyfoedion i gadw'r awyrennau amddiffynol yn yr awyr. Mae ei arddull hamddenol a didwyll yn ein galluogi i ddychmygu tensiwn y cyfnod.

Yn cynnal y geiriau mae amryw o ddarluniau clir. Y mwyafrif ohonynt yn wreiddiol, wedi eu tynnu gan Jack gyda'i 'gamera bach' ac, fel Jack, wedi cael 'dwad adra'.

Mae sawl cyfeiriad ysgafn yma hefyd. Gofynnir ac atebir ambell gwestiwn, er enghraifft, 'Pa mor llydan yw ceg peithon?' Fe synnech beth all y neidr ei lyncu!

Fel pob llyfr am gyfnod rhyfel mae 'ffrindiau oes' yn chwarae rhan bwysig. Dyma'r 'cynnal' unigryw mae'r fath sefyllfa yn feithrin. Sonnir am sawl mêt a'r cysylltu hyd heddiw rhyngddynt. Yn anochel, sonnir hefyd am y rhai na ddychwelodd.

Mae pwrpas arall i gyhoeddi'r llyfr. Teulu Jack a dalodd am ei gyhoeddi a rhaid canmol gwaith glân Janet a Michael Stephens yng Ngwasg CMS, Rhydaman. Bydd nifer yn cofio Jack a Joan Foulkes yn cadw siop groser Liverpool House yn Llanberis o 1954 i 1967. Yna fe symudwyd i Dyddyn Gwndwn, Bethel ble mae Alun, un o'r meibion, a'i deulu'n byw heddiw. Er cof am Joan, dymuniad Jack a'r plant yw cyflwyno unrhyw elw a wneir o'r gwerthiant i Gronfa Gwaith Ymchwil Meddygol Cymru.

Pleser yw cael cefnogi'r fath fenter gan ddyn hynaws ac at achos mor deilwng. Os hoffech gael copi, pris £5, gellir ei archebu trwy gysylltu â Jack (670685) neu Alun (670229). Mwynhewch y darllen.

O'r Rafn i fyd yr ofnau – yr rwy'n gweld  
Rangŵn, a'i ofidiau.  
Yn y pair, pob gair yn gwau  
Yn glir, tu fewn i'w gloriau.

Yna dydd gwahanu dau – i'r gelyn  
O'r golwg a'i ddyrnau.  
Siawns geir, o noddi'r geiriau  
I guro brath, hen gur brau.

RLJ


R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

*PRISIAU RHESYMOL*

TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU



G. EVANS
ARBENIGWYR TRWSIO CYRFF CEIR
Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug
(01286) 678030

# Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

## Tri Pry' Copyn



*Bu tri pryf copyn yn weithgar tu hwnt. Y maent wedi nyddu gwe rhwng boncyff y goeden geirios a'r adwy yn yr ardd gefn.*

Dyna'r hyn a gofnodwyd ddydd Mawrth, 11 Medi yn y flwyddyn 2001 a hynny mewn pwt o lyfr y gellid ei alw, am wn i, yn ddyddiadur byd Natur.

Pam cofnodi dwedwch? Ysfa. Mater o raid. Awydd cadw ar ddu a gwyn yr hyn a dystiwyd iddo. Disgrifio yr hyn a welwyd. Rhyfedd yw plant dynion pan fo'n fater o nodi manylion dibwys, ac o bwys, ar bapur! Ym meddyliau rhai ohonoch rwbath cwbl ddi-nod yw'r nodyn uchod ynghylch tri pryf copyn mewn bwgan brain o ardd. Hen bethau digon cyffredin yw trychfilod ac nid pawb ohonom sy'n cymryd at bryfed cop.

Y tro hwn rhyfeddu a wnes i bod tri o deulu'r *Araneidae*, sef *pryfed cop yr ardd*, wedi dewis yr un fangre i ddal pryfed. Mor gall oeddynt ac yn gwybod i'r dim bod awelon a chroes-wyntoedd yn cludo bwyd ar ffurf pryfed iddynt tuag at y rhwydi sidanaidd a grëwyd. Hyn i gyd, a'r ffaith fod blodau'r malws yn tyfu gerllaw, rhai piws ran eu lliwiau, a'r planhigyn dan sylw'n gyrchfan pryfed wrth y dwsinau.

Liw dydd yn nhymor yr Hydref roedd y tri pryf copyn yn ddigon bodlon ar lechu ynghanol y gwëoedd, a'u pennau trymaidd yn gogwyddo ar i lawr. Bwyta'n ddibendraw. Dal ysglyfaethau. Mwynhau pryd ar ôl pryd. Yn ystod y cyfnod dan sylw bydd y fenyw yn mynd ati i ddodwy wyau bychain, ond ni fydd yr wyau'n deor hyd nes y cyrhaedda'r Gwanwyn nesaf, a'r adeg honno bydd pryfed cop bychain ar gael wrth eu cannoedd. Eu hanes wedyn fydd tewychu ac aeddfedu, a throi'n oedolion.

Mewn gwirionedd trychfilyn wyth coes a chorff deu-ran iddo ydyw *pryf copyn yr ardd*. Mae ganddo rywbeth tra arbennig hefyd, sef wyth llygad, a drefnwyd ar ei ben yn ddwy res. Nyddir y we'n y rhannau lledol o'i gorpws. Oddeutu 1/200 milimedr ran diamedr ydyw'r we sidanaidd a gynhyrchir ganddo. Trychfilyn bychan ac eto'n un mor eithriadol o gryf. Tipyn o ryfeddod yn wir!

Yn hanes y tri pryf copyn a welwyd mis Medi y llynedd, buont yno rhwng llwydni'r mur a boncyff y goeden geirios am oddeutu pythefnos i gyd. Llechent yno oddi mewn i'r cylchau llawn ariander sidanaidd gan fwynhau'r heulwen a'r hinsawdd feidrol dyner, a'r bwyd wrth reswm. Ond yna daeth y glaw a'r gwynt ac nid oeddynt yno mwyach. Mewn traean noson roeddynt wedi diflannu.


**BWS BACH AR LOG**



Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

**D. P. OWENS** RHIWLAS


# BRYNREFAIL


Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580


PROFEDIGAETH. Cydymdeimlwn yn ddwys â John Meirion a Gwawr Morris, Y Griolen yn eu profedigaeth lem o golli eu mab Dylan yn 38 mlwydd oed ar 10 Ionawr. Wedi brwydr ddewr yn erbyn afiechyd blin, mae ei ymadawiad yn golled drist i'w deulu oll, yn arbennig ei briod Nia a'i ferch fach Grug Elain, a anwyd ar 19 Dachwedd, ei lu ffrindiau a'i gyd-weithwyr gyda S4C yng Nghaerdydd. Bu'r angladd cyhoeddus yn yr Hen Gapel, Llanuwchllyn ar 19 Ionawr.

Dymuna John a Gwawr Morris ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn ystod y misoedd diwethaf. Rydym yn gwerthfawrogi eich caredigrwydd a'ch haelioni yn fawr iawn.

COFION. Dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd bu llawer yn cwyno gyda mân anhwylderau. Dymunwn adferiad i bob un ohonoch a chofion arbennig a gwellhad buan i rai a dreuliodd gyfnodau yn yr ysbyty – Moira Ellis, Gweledfa; Blodwen Hughes, 12 Trem Eilian; Dafydd Williams, Meini Gleision a Gwilym Hughes, Bryn Parc.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cynhaliwyd cyfarfod mis Ionawr ar nos Lun 22ain yn Ysgol Gymuned Cwm-y-glo dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Roedd llawer o'r aelodau yn absennol oherwydd afiechyd a dymunwyd adferiad buan iddynt. Cydymdeimlwyd yn ddwys â Gwawr Morris yn ei phrofedigaeth o golli ei mab, Dylan.

Aromatherapi oedd testun sgwrs y noson a threuliwyd amser pleserus yng nghwmni Gwen Owen o Goleg Menai yn arddangos rhinweddau gwahanol olew. Carol Houston baratodd y lluniaeth a chyfrannu gwobr y mis. Yr enillydd oedd Carys Parry.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, 18 Chwefror pryd y ceir sgwrs ar Gymorth Cyntaf.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. GWASANAETH NADOLIG. Fore Sul, 16 Rhagfyr daeth yr aelodau a phlant yr Ysgol Sul ynghyd i ddathlu'r Ŵyl gyda chyflwyniad wedi ei seilio ar adran yr Adfent a'r Geni yng *Nghaneuon Ffydd*. Roedd hyn yn rhoi cyfle arbennig i sylwi ar yr adran hon o'r llyfr emynau y Nadolig cyntaf ers ei gyhoeddi. Canolbwyntiwyd ar dair agwedd sef yr hen garolau Cymreig, carolau'r ugeinfed ganrif a charolau tramor.

Cymerwyd rhan mewn deialogau gan blant yr Ysgol Sul, Caryl ac Awen Jones a Rhian ac Anna George. Roedd y cyflwyniadau yn y gwahanol adrannau gan Ifanwy a Gwyn Hefin Jones, Einir Gwyn, Norman Williams, Mair Davies, Amy Lambert, Verna Jones, Jennie Hughes, Dafydd Ellis a Dwynwen Williams gydag unawd gan Robert John Williams. Roedd y darlleniadau o'r ysgrythur a'r gweddïau dan ofal Richard Wyn Evans, Bertie Roberts, Emyr Williams a Jennie A. Roberts gyda'r gynulleidfa yn ymuno mewn cyd-ddarlleniadau a chyd-ganu nifer o'r carolau. Llywyddwyd y cyfarfod a lluniwyd y sgript gan Lowri Roberts Williams. Ar y terfyn mwynhaodd pawb flasusfwyd a phwnsh cynnes.

TREFN OEDFAON CHWEFROR.

- 3: Parch Oswyn Rees, Bangor am 10.00;
- 10: Parch Gareth Maelor Jones, Llanwnda am 10.00;
- 17: Mr Evan Jones, Bontnewydd am 10.00;
- 24: Mrs Mair L. Bowen, Llanfairfechan am 5.30.

# CWM Y GLO


Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263


LLONGYFARCHIADAU i Clair Pritchard, 1 Rhes Bryn ar dderbyn Belt Du yn Karate. Hefyd i Cheryl, 22 Dôl Afon ar dderyn Belt Porffor. Dymuniadau gorau oddi wrth mam, dad a Ffion. Mae Clair a Cheryl yn aelodau o Glwb Karate Llanberis.

CYDYMDEIMLAD. Drwg iawn oedd clywed y newydd am farwolaeth Mr Michael Owen yn Ne Affrica (Meic Llwyncoed). Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mr Eirwyn Williams a'r teulu, Llwyncoed.

ESTYNNWN ein cydymdeimlad dwysaf hefyd i Alwyn ac Edwina Foulkes a'r plant, Anthony, Kevin a Gavin, Dôl Afon yn eu profedigaeth lem o golli tad a thaid annwyl a charedig yn Llanberis.

CAPEL Y TABERNACL. Nos Sul, 23 Rhagfyr cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau gyda'r Parchedigion Gwynfor Williams, Phillip Hughes a Vittoria Handcock yn gwasanaethu. Ynghyd â Pharti Lleisiau Lliwedd, dan arweiniad Mr Gareth Jones a Mrs Lowri Roberts Williams yn cyfeilio roedd Seindorf Arian Ieuenctid Llanrug, aelodau Clwb y Plant a Mrs Cassie Thomas wrth yr organ. Casglwyd swm o £93.50 tuag at Clwb y Plant ac Apêl Affganistan.

Gan fod Dr. Graham a Cassie wedi mynd i dreulio chwe wythnos yn gwneud gwaith ymchwil mewn meddygaeth yn Lesotho ni fydd Clwb y Plant yn cael ei gynnal hyd ddechrau mis Mawrth.

CYFARCHION Y FLWYDDYN NEWYDD. Dymuna Miss Elizabeth Hughes (Tan y Graig) sydd yn awr yng Nghartref Penisarwaun, ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i'w ffrindiau a chyn-gymdogion a diolch i bawb am y cysylltiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

# LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

PLAS PENGWAITH. Fe fuom yn lwcus iawn yn yr wythnos yn dilyn ein Ffair Nadolig – cawsom fynd allan gyda'r bws mini.

Rhagfyr 10 cawsom fynd allan i Pringles yn Sir Fôn am ginio Nadolig a siopa yn yr awyrgylch Nadoligaidd.

Rhagfyr 12 cafodd pawb fynd i Westy'r Dolbadarn Llanberis am ginio Nadolig.

Rhagfyr 13 fe aethom i Borthmadog a Chricieth a chael *'fish a chips'* ar y ffrynt yn Nghricieth.

Rhagfyr 14 aeth rhai o'r preswylwyr i Holland Arms am ginio a siopa yn y fan honno.

Diolch yn fawr i bawb yng Ngwesty Dolbadarn am y gwasanaeth a'r bwyd bendigedig a gafwyd ar achlysur ein Cinio Nadolig.

Diolch yn fawr hefyd i bawb a gyfrannodd y rhoddion i'r Raffl Nadolig eto eleni.

Mercher, 19 Rhagfyr cafwyd Bwffe Nadolig i bawb oedd yn y Bingo yn yr Uned. Hoffem ddiolch i bawb fu'n galw i mewn bob prynhawn dydd Mercher i gefnogi ein Bingo yn y Cartref a diolch i'r trefnwyr am roi o'u hamser. Rydym yn gobeithio ailgychwyn y Bingo ymhellach ymlaen, y dyddiad i'w drefnu.

Rydym yn dymuno pen-blwydd hapus i Mrs V. Jones sy'n dathlu y mis yma.

Dymunwn wellhad buan i Mrs C. Jones o Lanberis sydd ym Mryn Seiont ar hyn o bryd.

Wedi dod i aros atom am gyfnod mae Mrs M.I. Griffiths, Bethel a Mrs E.R. Thomas, Llanberis. Dymunwn roi croeso cynnes iddynt atom.

Bydd Ffair Ddillad yn y Cartref dydd Mawrth, 22 Ionawr. Croeso i bawb yn y Cartref weld a phrynu dilladau newydd.

YSGOL DOLBADARN

GWASANAETH NADOLIG. Bu'r Gwasanaeth Nadolig yn ddiweddglo anrhydeddus i dymor prysur arall. Casglwyd £170.00 yn y gwasanaeth tuag at yr henoed.

CONSORTIWM BUSNES LLANBERIS. Daeth Mrs Pat Jones i'r ysgol ddydd Iau, 17 Ionawr i gyflwyno siec gwerth £1000.00 i'r ysgol, sef elw'r Raffl Nadolig a drefnwyd fel rhan o'r dathliadau Nadolig gan Gonsortiwm Busnes Llanberis. Derbynwiyd y siec gan Iwan a Sioned, a fu'n fuddugol yn y gystadleuaeth cynllunio cerdyn Nadolig. Gwerthwyd y cardiau hyn er budd yr ysgol.

FAN HYBU IECHYD. Daeth y fan hybu iechyd i'r ysgol am dridiau. Cafodd plant yr ysgol i gyd gyfle i fynd i'r fan i ddysgu am y corff ac am gadw'n iach ac yn heini.

RSPCA. Ar ddydd Iau, 24 Ionawr dath Roz Thomas i'r ysgol i siarad hefo'r plant am waith y mudiad RSPCA.

*FREE BOOKS FOR SCHOOLS.* Mae'r ysgol yn casglu tocynnau *Books for Schools* unwaith eto eleni. Cawsom dros 100 o lyfrau y llynedd. Maent i'w cael mewn papurau newydd yn ogystal ag ar bacedi creision. Gofynnwn yn garedig i chi eu torri allan cyn eu hanfon i'r ysgol!

GWYLIAU PASG 2002. Mae'r ysgol yn cau i'r plant ar 21 Mawrth 2002 ac yn ail agor i'r plant ar ddydd Mercher, 10 Ebrill 2002.

RAFFL CONSORTIWM BUSNES LLANBERIS. Dyma restr yr enillwyr.

*Prif Wobr:* Tocyn £100 i'w wario yn Siop Mynydd Gwefru: D. Oliver. Tocyn Teulu Rheilffordd yr Wyddfa: Liam Jones, Penygroes; Tocyn Teulu Mynydd Gwefru: Lynne Parry; Tocyn Teulu Rheilffordd Llyn Llanberis: Carys Morris; Tocyn Teulu Snowdon Star Cruises: G. Owen; Tocyn Teulu Canolfan Greenwood: Howard, d/o Vaynol Arms; Pryd i ddau yn y Bistro: Barry Wardle; Pryd i ddau yng Ngwesty Gallt y Glyn: Nicola Owens; Pryd i ddau ym Mwyty Balti Raj: A. Vila, d/o Vaynol Arms; Cinio Sul yng Ngwesty'r Royal Victoria: Russell Roberts; Pryd i ddau yng Ngwesty Lake View: Moira Ellis; Draig Haearn, gwaith o'r Amgueddfa Lechi: Celia Thomas; Tocyn Anrheg £20 Tŷ Caxton: Stan Williams; £20 ar gyfer fframio llun o Fframia: Helen Sharp; Tocyn £10 o Gaffi Connections: Jean Roberts; Tocyn £10 o Gaffi'r Ffowntan: Mrs Owen, Nant Peris; Bocs o ffrwythau a llysiau o Garth: Mrs Jackson, Llanberis; Paentiad Batik o'r Odyn Copr: R. Jones; Bocs o fygiau o Pete's Eats: Doug, Waunfawr; Sach deithio o Joe Brown: Derec Morgan; Set o lestri yn rhodd gan Idan House: Sian Williams.

*Cystadleuaeth y Ffenestr wedi ei haddurno orau:* Tŷ Caxton.

Llawer o ddiolch i bawb ohonoch fu mor garedig â rhoi gwobrau tuag at y raffl ac am werthu'r tocynnau. Rwy'n falch o ddweud y codwyd dros £900 tuag at Ysgol Dolbadarn.

DYMUNA Sandra (Pleming) a Geoff Jones ddiolch o galon i'w teuluoedd, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas ym mis Tachwedd 2001.

DYMUNA Mrs Madge Davies, Tyddyn Eilian, Llanberis ddiolch o galon am yr holl gardiau, galwadau ffôn, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ôl treulio'r Nadolig yn Ysbyty Gwynedd. Diolch hefyd i staff Ysbyty Gwynedd am bob gofal.

DYMUNA Wilbert Davies, 7 Rock Terrace ddiolch o galon am yr holl gardiau, galwadau ffôn a dymuniadau gorau a gafodd yn ystod ei amser yn yr ysbyty.

DYMUNA Ronnie a Doris Evans ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a staff Plas Pengwaith am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd dros y Nadolig i mam, Mrs Annie Mary Evans, gynt o 'Bron Eifion', Goodman Street, Llanberis.

LLONGYFARCHIADAU i frawd a chwaer o Lanberis sydd wedi graddio. Vernon Pitts yn MSc a Beverley Pitts yn Bsc (Hons). Pob lwc yn y dyfodol.

DYMUNA Selyf Noel Hughes ddiolch yn ddiffuant iawn i'w deulu, cyfeillion a'i gymdogion am eu anrhegion, cardiau, galwadau ffôn a phob dymuniad da iddo ar ei ben-blwydd arbennig o flaen y Nadolig.

LLONGYFARCHIADAU i Iwan Wyn Williams, Carlinig ar lwyddo i gael Merit yn Gradd 2 Piano yn ddiweddar.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr


GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO
24 awr y dydd – 7 diwrnod yr wythnos
PLUM24CYM
Gwaith Plymio • Gosod Ceginau a Bathrwms
Gwaith cynnal a chadw o bob math
Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)



Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff



GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491
CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION

Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Pais, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati
BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491



Harddwch eich cartref gyda
FFENESTRI CELTIC WINDOWS
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

# CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

TYNNU'R SÊR. Enillydd y dewis ar gyfer rhif y seren Iwcus oedd Iona Ceiriog, 4 Erw Wen – rhif 104. Diolch i bawb yn y fro am eu cefnogaeth. Aeth yr elw at Ganolfan Caeathro.

GWASANAETH CAROLAU. Daeth dros 100 o bobl ynghyd at y Goeden Dolig eleni ar gyfer gwasanaeth o garolau gyda Seindorf Arian Llanrug a phlant Ysgol Sul Caeathro. Diolch i Gyngor Gwynedd am eu cefnogaeth ariannol ac i'r sawl fu'n rhoi'n hael i Shelter Cymru – £75.00.

TYNFA MISOL. Yr enillwyr am fis Rhagfyr 2001 oedd £40: (98) Iona Ceiriog, 4 Erw Wen; £25: (21) Arwel Evans, 8 Tai Glangwna; £15: (8) Francis Wyn Williams, Bodwyn; £5: (19) Glan Jones, Glangwna.

Enillwyr mis Ionawr oedd £40: (7) Margaret Hensworth, Barn Cottage; £25: (35) Glenda Hughes, Llyngele; £15: (15) Idris Owen, Mur Matthew; £5: (13) D. & V. Hughes, Pennant.

TYNFA DOLIG. Bu'r canlynol yn llwyddiannus yn y Tynfa Nadolig eleni gyda £10 o wobr yr un: (32) Mrs D. Moore, Bwthyn Eryl; (16) Alan Griffith, 6 Tai Glangwna; (9) Chris Smith, Bryn Bela; (6) Viv Morgan, Tyddyn Uchaf; (82) Shôn Jones, Cae Phyllip; (2) Peter Evison, Cae Hopcyn; (25) Alwenna Roberts, 4 Caeathro Bach; (63) Einir Wyn, 3 Erw Wen; (74) Mark Bee, 5 Tai Glangwna; (38) J. & A. Pritchard, Glan Gors Newydd.

SYMUD PLWYFI. Mae Eric a Beryl Roberts, gynt o 11 Erw Wen, yn symud – i dde Cymru. Ar ôl cyfnod fel Ficer Dyffryn Nantlle, mae'r Parchedig Eric Roberts wedi derbyn bywoliaeth plwyfi Llandysul, Pontsian, Tregroes, Bangor Teifi, Henllan, Llanfairorllwyn a Llangynllo yn Nyffryn Teifi. Dymunwn bob bendith iddynt yn eu cartref newydd.

DIOLCHIADAU. Dymuna pensiynwyr y fro ddiolch i hap-chwaraewyr Tynfa Misol y Cae Chwarae am eu cyfraniadau cyson, ac i aelodau Pwyllgor y Cae Chwarae am drefnu cerdyn a rhodd Nadolig iddynt.

YSBYTY. Dymunwn wellhad llwyr i Mrs Mary Owen, 10 Bryn y Gof ar ôl iddi dderbyn penglin newydd yn Ysbyty Gwynedd.

NEWYDDION CAPEL. Cynhelir yr Ysgol Sul bob dydd Sul am 11.00 yn Ystafell Bwrdd y Garej. Cyhoeddir gwasanaethau eraill yn unol â darganfod pregethwyr. Pe bai'r tywydd yn ffafriol mae'r adeiladydd yn disgwyl gorffen y gwaith moderneiddio ddiwedd mis Mawrth.

THEATR BARA CAWS. Mae'r Pwyllgor Codi Arian i'r Ganolfan wedi trefnu llwyfannu sioe glybiau Theatr Bara Caws yng nghlwb Glangwna ar nos Sadwrn, 16 Chwefror am 7.30. Ticedi ar gael oddi wrth Marian a Deiniol Hughes, Tŷ Mawr.

MARWOLAETH. Bu farw Nancy Roberts, (Pierce gynt) o 6 Bryn y Gof, Caeathro yn Ysbyty Gwynedd ar 28 Rhagfyr 2001 yn 86 mlwydd oed. Ymdrechodd yn ddewr i'r diwedd. Gadawodd bump o blant, Beti, Megan, Hefina, Morfudd a Merfyn. Roedd yn nain a hen-nain annwyl i'w wyrion a'i wyresau, ei gor-wyrion a'r gor-wyresau.

Yn enedigol o'r Waunfawr, ond wedi ymgartrefu yng Nghaeathro ers dros 60 o flynyddoedd lle bu, pan yn ifanc, yn weithgar iawn yn y Capel a'r gwahanol gymdeithasau. Roedd darllen ac ysgrifennu yn un o'i diddordebau hyd nes i'w golwg a'i hiechyd ddirywio, a bu'n gaeth i'w chartref ers dipyn o flynyddoedd.

Bu'r angladd ddydd Iau, 3 Ionawr yng Nghapel Gorffwys, Ffordd y De, Caernarfon ac yna ym mynwent Caeathro dan ofal y Parch. Dafydd Hughes.

Y cludwyr oedd Seiriol Owen, Cyril Roberts, Richard Elwyn Roberts a Kevin Jones. Daeth nifer o deulu a chyfeillion ynghyd a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Lona (Canada), Hefina a Michael Parry (merch a mab yng nghyfraith) ac Alice Pierce (chwaer yng nghyfraith).

Gyda llawer o ddiolch derbyniwyd blodau gan y teulu a ffrindiau, cardiau a galwadau ffôn. Diolch i Feddygon Waunfawr a staff Ward Tegid lle rhoddwyd rhodd ariannol am eu gofal tyner ohoni am 7 wythnos. Diolch am y bwyd ardderchog a baratowyd ym Mryngwna. Diolch hefyd i'r Parch. Dafydd Hughes a'r trefnwyr angladdau, Gwilym Jones a'i Fab, Caernarfon am eu gwasanaeth trylwyr.

PWYLLGOR CODI ARIAN. Bydd cyfarfod o'r pwyllgor sy'n cyd-lynnu codi arian tuag at gostau cymunedol y Ganolfan a Chapel newydd yn Nhafarn Bryngwna am 7.30 yr hwyr nos Iau, 7 Chwefror. Croeso i bawb.

PWYLLGOR Y CAE CHWARAE. Cynhelir cyfarfod misol yn Nhafarn Bryngwna am 8.00 yr hwyr nos Lun, 18 Chwefror.

CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR




YN YR ARDD!
WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo
Ffôn: (01286) 870674
GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL


# DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259



*Llongyfarchiadau i Debbie a Bryn ar eu dyweddiad ar 24 Rhagfyr 2001. Pob lwc a llawer o gariad gan Mam a Maria.*

DYMUNA Alan Parry, 19 Pentre Helen, Deiniolen ddiolch i'w deulu a'i ffrindiau am eu cymorth dros y deunaw mis diwethaf pan na fu'n mwynhau ei iechyd arferol. Un o'r pethau fu o help mawr iddo fu cael cyfle i gyfrannu at waith Radio Ysbyty Gwynedd.

Erbyn hyn mae wedi cael swydd hefo'r Radio ac yn derbyn ceisiadau am ganeuon i bobl y fro sydd yn glaf yn yr ysbyty.

DYMUNA Ernest Jones a'r teulu ddatgan diolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad, am yr ymweliadau, y galwadau ffôn a'r llu cardiau a dderbyniwyd ganddo wedi colli chwaer annwyl, Margaret Elizabeth Hughes, Talysarn.

## Dirgelwch y llun



*Anfonwyd y llun yma i'r Eco gan Edith Thomas, Rhiwen. Nid yw'n gwybod pwy yw'r bobl sydd ynddo, ond mae nodyn ar ei gefn yn dweud iddo gael ei dynu yn 1927 yn Cae Rhedyn, Clwt y bont. Oes rhywun o ddarllenwyr yr Eco yn eu hadnabod? Cysylltwch â'r golygydd os allwch helpu.*


GORSAF BETROL
ESSO BERAN
DEINIOLEN
Ffôn: (01286) 871521
Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion
TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

# Cyngor Cymuned Llanberis

Cyfarfu'r Cyngor ar 17 Ionawr yn Angorfa, Llanberis gyda'r Cynghorydd Dei Tomos yn y gadair.

Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd yn nodi fod y gwaith o geisio datrys problem dŵr wyneb yn Field Terrace i'w wneud yn y dyfodol agos. Yn y cyswllt hwn, penderfynwyd cysylltu â'r Awdurdod Priffyrdd yn nodi problemau dŵr wyneb yn ardal Ynys Wen; ger Plas Coch ar y Stryd Fawr ac yn agos i fynedfa Maes Padarn yn dilyn ail-wynebu'r ffordd trwy'r pentref.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd unwaith yn rhagor ynglŷn â gosod arwyddion i ddynodi'n eglur ble'n union mae stadau Dôl Elidir, Maes Padarn a Dôl Eilian.

Mae'r cae chwarae ger Frondeg wedi ei glirio o dyfiant a sbwriel ar gost y Cyngor. Mae mewn cyflwr ardderchog bellach i blant y gymdogaeth fedru ei ddefnyddio. Gofynnir ar i aelodau o'r cyhoedd beidio a'i ddefnyddio i waredu sbwriel domestig.

Ni dderbyniwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd na'r Parc Cenedlaethol ynglŷn â phroblemau beicio mynydd ar Lwybr yr Wyddfa yn groes i'r cytundebau gwirfoddol.

Ystyriwyd tri chais cynllunio, ac nid oedd unrhyw wrthwynebiad gan y Cyngor i estyniad a mynediad anabl yn Y Caban, Stryd Fawr, i estyniad yn 43/45 Stryd Fawr ac i estyniad a garej yn Marteg, Llanberis.

Derbyniwyd adorddiad gan y Cadeirydd ar Gyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd yng Ngwesty Fictoria y noswaith cynt i amlinellu'r bwriadau ynglŷn â gwesty newydd ar gopa'r Wyddfa.

Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn â chyflwr dau lwybr cyhoeddus: Llwybr rhif 34 ger Pont y Meibion, Nant Peris ble mae erydu gan afon Gafr wedi creu difrod, a Llwybr rhif 48 o'r lanfa ger Llyn Padarn ar draws Y Ddôl sy'n dioddef o achos llifogydd.

Mae'r mwyafrif o'r meinciau cyhoeddus yn y pentref wedi eu hatgyweirio dros y misoedd diwethaf gan weithwyr o Fenter Fachwen. Penderfynwyd gofyn i'r Fenter ymgymeryd â'r gwaith o gynnal y meinciau yn y fynwent ac wrth Ty'n Llan, Nant Peris.

Yn dilyn llwyddiant y goleuo Nadolig yn y pentref, penderfynwyd cyfrannu £500 ychwanegol i Gonsortiwm Busnes Llanberis i gynorthwyo gyda'r gost o ail-sefydlu'r fenter.

Penderfynwyd ar y Briseb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2002-2003. Gofynnir i Gyngor Gwynedd am swm o £11,500.

Trafodwyd materion yn ymwneud â thenantiaethau gwahanol gymdeithasau ac ati, a phenderfynwyd gofyn iddynt beth oedd eu polisiau ynglŷn â blaenoriaethu pobl ifanc lleol.

Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn ag effeithiolrwydd ponciau arafu traffig yn ardal Tai Faenol, a chyfyngiadau ar y palmentydd yn y Stryd Fawr oherwydd byrddau hysbysebu.

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal yn Angorfa, Llanberis ar nos Iau, 21 Chwefror am 7.00 o'r gloch.

## NANT PERIS



**Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon**
**Ffôn: (01286) 871820**


DYMUNA Sandra (Pleming) a Geoff Jones ddiolch o galon i'w teuluoedd, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas ym mis Tachwedd 2001.


**H. E. HUGHES**
**A'I FEIBION**

**Bwthyn Gadlys**
**LLANBERIS**

**FFôn: 870444**



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

**www.s4c.co.uk**







Celwydd, Cyfrinachau, Caru ar y slei.
Mae pawb wrthi yn Tipyn o Stâd.

**TIPYN O STÂD**


**Cyfres ddrama newydd yn cychwyn ym mis Mawrth**

TRANSL888/889

**CYFRES NEWYDD**

**S4C**

## CROESAIR CHWEFROR



**Rhannau o'r 1 ar draws ydi atebion y cliwiau sydd â chyfeiriad at gliwiau eraill ynddynt.**

**Ar Draws:**

3 Pinacl y (1 ar draws)? (3)
4 Rhwng y (25 ar draws a'r 1 ar draws) (8)
12 Defnydd hydwyth cryf a geir o nodd coeden (5)
13 Dogn o elw ansefydlog (5)
14 O liw gwahanol i 8 i lawr, ond yn cydfodoli yn gerddorol (5)
15 Merch yn ymuno â dysgwr? Mae'n atgas (9)
16 Ceffylau ifanc (7)
18 Y doeth yn dychwelyd yn rhydd (3)
21 Diod feddwol (4)
22 Ewin aderyn neu anifail (7)
25 Ar flaen y (5 ar draws)
26 Un sy'n ymbilio (7)
27 Rhwng y (1 a 3 ar draws) (4)
29 Y ferch yn y gornel? (3)
34 Gochelwyr (7)
36 Coed afalau (9)
39 Cynulliad i drafod a gwneud cyfreithiau (5)
40 Yn rhan o'r (25 ar draws a 17 i lawr) (5)
41 Ffurf ar rediad berf i fynegi gwahanol adegau! (5)
42 Chwalu darn o un i gael cyfiawnder (8)
43 Y gair a ddefnyddir am rywun wrth sôn amdano! (3)
44 Heb fod yn galed (4)

**I Lawr:**

1 Ymosodiadau (6)
2 Yr ymwelydd brongoch sy'n hawlio'r ardd (5)
4 Peth a addolir! ond nid yn gyntaf? (5)
6 Iaith y kremlin (6)
7 Lecsiwn a gynhelir rhwng y rhai cyffredinol (9)
8 Defnydd a welir ar y piano (3)
9 Sythu (6)
10 Y bwa sydd mor flêr mewn cell! (6)
11 Rhestr o eitemau neu blan o'r hyn sydd i ddod (5)
17 Ar flaen y (31 i lawr) (5)
19 Coed mawr bythwyrdd (4)
20 Cig moch wedi ei hallu (5)
21 Rhan o'r (3 ar draws)
22 Offeryn cerdd ar y (17 i lawr)? (4)
23 Y gallu i alw yn ôl i'r meddwl (3)
24 Llawryf (9)
28 Glaw trwm yn yr haf? (2,4)
30 Poenau (6)
31 Rhwng y (17 i lawr a'r 1 ar draws) (6)
32 Un sy'n gwneud ei wallt? (6)
33 Aflendid (6)
35 Ym meddiant y ferch (5)
37 Peth prydferth o un ardd (5)
38 Trawsffurfio Anest yn ferch arall (5)

Derbyniais bump ar hugain o atebion i groesair mis Rhagfyr gan Jean Hughes-Jones; Catherine A. Jones; E.E. Jones; Dilys A. Pritchard; Nan Owen; Gwen Davies; N. Hughes; Mair Evans; Rhiannon Pritchard-Jones; Doroothy B. Jones; Vera Griffiths; Alvona Jones; Ellen Pritchard; Margaret Wyn Roberts; Ceinwen Wiliams; Moreen Lennon; G. Gill; Pat Owen; M.P. Jones; Ceridwen Williams; Nans Davies; Olwen Jones; Jennie Williams ac Eluned Jones. Y mae un arall hefyd sydd yn ddi-enw.

Ymgais Pat Owen, Bryn Hebog, 13 Woodend, Caerfyrddin SA33 4UG ddaeth allan o'r het. £5 a llongyfarchiadau i chi.

Diolch i bob un ohonoch wnaeth ychwanegu nodyn i ddymuno blwyddyn newydd dda i mi ac i'r teulu. Dymunaf i chwithau oll yr un modd.

Ar ôl cwblhau croesair y mis hwn gyrrwch eich atebion i gyrraedd Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun LL55 3HE erbyn Chwefror 18.

## RHODDION

**£15:** Mrs Jeni Williams, Pennant, Nant Peris.


**£10:** Er cof am Miss Ann Jones, Rhes Minafon, Llanberis; Seiriol a Beti Owen, Crud yr Awel, Bethel; Mrs Madge Davies, Tyddyn Eilian, Llanberis; Er cof am Mrs Annie Williams, Meillionydd, Penisarwaun.

**£8:** Gomer Davies, Tregarth.

**£5:** Mr Cledwyn Parry, Glyder, Ffordd Capel Coch, Llanberis; Mrs Myfanwy Thomas, Bron Wyddfa, Nant Peris; Y Cynghorydd Trefor Edwards, Llanberis; Teulu'r ddiweddar Olwen Morris, 56 Maes Padarn, Llanberis; Wilbert Davies, 7 Rock Terrace, Llanberis; £5 Selyf Hughes, Llanberis; £5 Sandra a Geoff Jones, Llanberis; Vernon a Beverley Pitts, Llanberis; Llinos Angharad a Gareth Pennant Owen, Beddgelert; Alice Jones, Bethel; Mr a Mrs Jones, Hafan, Porth y Gogledd, Deiniolen.

**£3:** Mrs Bet Jones, Lyndale, Llanrug.

**£2:** Teulu Carlinig, Llanberis; Debbie a Bryn, Rhydfadog, Deiniolen; Mr a Mrs S. Owen, Goledd, Llanrug.




Cefnogwch ein Hysbysebwyr

BEICS WIL



BEICIAU NEWYDD AC AIL LAW
• TRWSIO • CYNNAL • PARTIAU




SIOP AROSFA, WAUNFAWR (01286) 650 723





ORIEL CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys





Dylan Griffith
TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN
Yn gwasanaethu'r holl ardal, yn cynnwys:
PENISARWAUN, DEINIOLEN, LLANRUG A LLANBERIS
Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.
24 awr y dydd
Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833
Symudol: 07778 127394

HEFYD
CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd Rolls Royce ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

# CHWARAEON

## Yr Iaith ar Waith

Un o raglenni mwyaf poblogaidd y flwyddyn ar y teledu yw Noson Gwobrwyo y Campau a drefnir gan y BBC. Yn sicr, mae'n rhoi syniad o genedl i ni ac yn amlygu'r symudiad pendant sy'n bodoli, yn lleol a chenedlaethol, oddi wrth unbeniaeth pêl-droed a rygbi. Y mae hefyd, mae'n siwr, yn rhoi rhyw dinc o euogrwydd i lawer wrth sylweddoli pan rydym yn trafod chwaraeon yn gyffredinol, cyn lleied o ddeimensiwn Cymreig sydd i'n trafodaethau yn aml. Y mae canlyniadau a pherfformiadau tu hwnt i'n ffiniau llawer mwy pwysig yn aml.

O gofio pwysigrwydd y rhaglen hon, a'i helfennau cenhadol, oni fuasai'n cryfhau'r rhaglen pe byddai'n ddwyieithog. Rwy'n sicr fod darlledwr profiadol fel Ian Gwyn Hughes yn fwy na thebol i gynnal rhaglen o'r fath yn ddwyieithog naturiol.

## Apêl

Fe gyfeirir yn y rhifyn yma at yr angen i lenwi bwlch y ddau olygydd a fu'n ymlafnio am ddeng mlynedd bellach. Nid oes bwriad gan y Golygydd Chwaraeon i 'chwythu'r bib olaf' ond, rhaid gofyn am gefnogaeth yma hefyd.

Dros y deuddeng mlynedd diwethaf, rwyf wedi ceisio adlewyrchu'r newidiadau mawr a fu ym myd y campau yn y fro. Llwyddodd llawer yn y campau 'lleiafrifol' i ddod i'r brig ac nid yw pêl-droed yn 'frenin' yn y fro fel ag y bu. Mae'n mynd yn anoddach o fis i fis i beidio sôn am yr un bobl, neu dimau. Ceisiaf gadw ffresni drwy fynegi barn bersonol ar rai o agweddau cyfoes chwaraeon.

O gofio cyfraniad sawl unigolyn yn y pentrefi rwy'n siwr fod llu o storïau yma yn y fro. Peidiwch a phoeni am ddiffyg gallu i ysgrifennu erthygl, gadewch i mi WYBOD am y stori. Fe gysylltaf â chwi ac yna fe rof i y cig ar yr esgryn.

Cofiwch fod ein papur bro yn gofnod o hanes bro o fis i fi ac y bydd pobl yn edrych ar ôl-rifynnau ymhen blynyddoedd i ddod. Trist yw meddwl y buasem wedi methu a chroniclo cychwyn rhyw yrfa ddisglair, neu methu talu teyrnged am gyfraniad gwerthfawr unigolyn.

Eco'r Wyddfa yw un o'r ychydig bapurau bro sy'n cynnwys tadalen lawn o erthyglau chwaraeon erbyn hyn. Trist meddwl – pwy bynnag yw'r Golygydd Chwaraeon – os na chawn dudalen chwaraeon yn y dyfodol, neu dudalen yn croniclo sgoriau gemau yn unig. Byddwch yn gefn i mi, er mwyn adlewyrchu gwir dalent y fro hon.

### Dywediad yr Wythnos

Clywais hon gan Tommy Docherty mewn cinio yn ddiweddar. Dyn radio yn gofyn i Bill Shankly beth oedd ei farn am Gwpan UEFA. Ateb y Sgotyn o Anfield oedd: 'Wn i ddim, dydw i erioed wedi gorffen digon isel yn y cynghrair i gymryd rhan ynddi!'

## Texas – i ddysgu crefft

Creulon iawn fu ymateb y wasg Brydeinig i fethiant Tim Henman i gipio coron Cystadleuaeth Agored Awstralia. Bu'r wasg yn ymfalchïo yn ei lwyddiannau cynnar, a'i fuddugoliaeth dros Greg Rudeski. Yna'r siom, a'r cwestiynu hallt o'i dechneg, ei ymroddiad a'i allu 'meddyliol' i wynebu y gemau 'mawr'. Mae'r driniaeth yma yn annheg, o gofio'r ymdrech aruthrol mae cystadleuwyr yn y campau unigol yn eu cyflawni i gyrraedd y safon. Y mae'r oriau o ymarfer, y teithio dibendraw, ac aberthu sawl agwedd gymdeithasol yn y blynyddoedd cynnar, yn dipyn o gambl, heb ddim sicrwydd o gyrraedd y brig. Annheg yw hi yn aml i ni labelu rhai mabolgampwyr yn gynnar yn eu gyrfa. Y mae'n hardaloedd yn llawn o chwaraewyr *'great'* ac *'ex trialists'* sy'n dal i gicio pêl yn y cynghreiriau lleol.

Un sy'n cychwyn ar ei ddatblygiad fel chwaraewr tenis yw Hefin Roberts, 18 oed o Grigyll, Llanrug. Bu Hefin yn llwyddiannus yn ei arholiadau lefel 'A' yn Ysgol Brynrefail y llynedd, ac y mae yn awr yn cymryd 'blwyddyn allan'. Ym mis Medi, bydd yn dechrau ar dair blynedd o gwrs Gradd Rheolaeth yn UWIC, Caerdydd.

Bu Hefin yn taro'r bêl denis ers pan oedd yn 6 oed, trwy ei gyflwyno i'r gêm *'short tennis'*. O dan hyfforddiant Cas Fish, datblygodd i fod yn aelod o garfan Tenis Iau Arfon. Cafwyd hwb sylweddol i'r gamp pan agorwyd y Ganolfan Tenis yng Nghaernarfon. Gyda gwell cyfleusterau ymarfer a hyfforddi datblygodd gêm Hefin a bu'n aelod o dimau bechgyn a dynion gogledd Cymru.

Pan ddaeth Werner Venta o Dde Affrig i hyfforddi yn y ganolfan, gwelodd addewid ym mherfformiadau ac agwedd Hefin. Yr oedd gan Werner gysylltiadau â Chanolfan Hyfforddi John Newcombe yn San Antonio, Texas. Dyma un o ganolfannau datblygiad gorau'r gêm. Y mae cyfnod yma yn rhoi rhagflas i'r ieuenctid o'r gwahanol agweddau y byddant eu hangen os am wneud eu marc yn y gamp.

Bedair blynedd yn ôl, dwy seren y cwrs oedd Lleyton Hewitt – heddiw yn rhif un y byd – a Jelena Dokic, un o brif chwaraewyr y byd i ferched. Rhoddwyd enw Hefin ymlaen fel ymgeisydd am le eleni ar gyfer cwrs chwe mis o hyd. Gan mai dim ond tri a dderbynir o Brydain, gallwch ddychmygu pleser Hefin o glywed ei fod wedi ei dderbyn.

Nid yn unig bydd Hefin yn cystadlu fel aelod o dim Academi y ganolfan, bydd hefyd yn ofynnol iddo hyfforddi plant ac oedolion. Gyda 28 cwrt yn y ganolfan, bydd tipyn o brysurdeb. Er mwyn ei baratoi ar gyfer yr agwedd yma o'i gyfnod, roedd yn ofynnol iddo fynychu cwrs chwe mis er mwyn derbyn Tystysgrif Hyfforddwyr Cymdeithas Tenis.

Yn sicr, bydd ymweliad Hefin â San Antonio yn ehangu gorwelion ar sawl lefel. Dymunwn yn dda iddo a gobeithio y bydd ei ymroddiad yn y blynyddoedd cynnar yn werth yr aberth, ac yn dwyn ffrwyth.

## Pa ddefnydd o'r Camera!

Erbyn heddiw mae teledu lloeren wedi cyrraedd nifer helaeth o'n cartrefi. O weld cyfle i elwa o'r llu gemau ar deledu lloeren, mae nifer o dafarnau a chlybiau wedi prynu y 'sgrin fawr'. Yn sicr, mae wedi cyflwyno elfennau newydd o ddadansoddi. Gwelir y gêm o sawl ongl, ac yn sicr mae wedi cynyddu'r pwysau ar ddyfarnwyr.

Y mae hefyd wedi amlygu rhai agweddau aflednais o'r gêm. Ni allaf ddeall pam y mae cyfarwyddwr ym mynnu dangos llun o chwaraewr yn colli ei limpyn gyda dyfarnwr, pan ei bod yn amlwg fod canran uchel o'r geiriau yn rhegfeydd.

Mae dau ddatblygiad arall hefyd. Y cyntaf yw'r tynnu crysau sy'n mynd ymlaen i geisio amddiffyn cic cornel neu gic rydd. Hyd yn hyn, ni welais unrhyw ddyfarnwr digon dewr i roddi cic gosb am y drosedd. Yr un mwyaf brwnt ar hyn o bryd yw'r defnydd o'r penelin.

Yn ddi-os, y mae'r tri achos a nodais uchod i'w gweld fwyfwy ar lefel lleol ac ieuenctid. Yn naturiol, mae'r llu am ddynwared yr hyn maent yn ei weld ar y caeau 'mawr'. Mae gwrth-ddadl wrth gwrs. Mae rhai yn taeru fod y chwaraewyr sy'n cymryd rhan yn rheolaidd ar gêm deledol dan anfantais o'u cymharu â'r mwyafrif fydd byth yn ymddangos ar y teledu. Yr un yw'r rheolau i bawb yw'r ddadl.

Mae'r uwch gynghrair erbyn hyn wedi sefydlu y Panel Fideo, sy'n gallu ymchwilio i achos a 'fethwyd' gan y swyddogion. Yn fy marn i teg yw hyn gan fod y fath agweddau yn dwyn anfri ar y gêm.

Rwy'n hoff iawn o wylio rygbi'r cynghrair – y *Super League*. Credaf fod y gamp yma wedi elwa o'r defnydd a wneir o dechnoleg y camera. Yn yr un modd, criced. Mae stopio'r gêm am gyfnod byr er mwyn cael y penderfyniad cywir wedi gwella'r gemau yn ddi-os. Cyfaddefaf ei bod yn anodd stopio gêm bêl-droed ar rai adegau. Serch hynny, mae'n bosib disgwyl i'r bêl fynd yn 'farw' ac yna cyfeirio at y 'trydydd dyfarnwr' am ddyfarniad teg. Os yw'r dechnoleg ar gael yna defnyddier hi i'r eithaf.


teithiau peris travel

STRYD FAWR LLANBERIS

(01286) 872777

annette@peris.co.uk

* Gwasanaeth effeithlon a chyfeillgar * Gwasanaeth dwyieithog
* Gwyliau wedi eu teilwra i ateb anghenion yr unigolyn, teuluoedd neu grwpiau
* Trefniadau hedfan yn unig
* Penwythnosau yn theatrau Llundain
* Y pecyn cyflawn, h.y bws-mini o ddrws y tŷ, trefniadau hedfan, gwesty neu apartment, llogi car, ac yswriant
* Arbenigedd mewn trefnu teithiau tramor i gorau ac i ysgolion
* Bargeinion munud olaf
* Teithiau tramor gyda chantorion o Gymru

Am fanylion pellach, ffoniwch **Annette** neu **Bethan**